Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries
and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

1264 e. 173

# ADOLYGIAD

AR

# DDADL BEDYDD;

A ACHLYSURWYD

*DRWY GYHOEDDIAD DAU LYFR*

O BOB TU I'R DDADL,

*Y DDAU GYNTAF GAN*

MR. THOMAS POWEL, o ABERHONDDU,

A

MR. D. WILLIAMS, o LANWRTYD.

GAN C. EVANS.

TREFRIW:

*ARGRAFFWYD GAN J. JONES.*

1822.

Bt from widow of Bob Owen,
Croesor

BODLEIAN
P
14 JUN 1966
LIBRARY

# ADOLYGIAD, &c.

YN y ddadl ar fedydd o du y Bedyddwyr, ond iddynt ymgadw mewn yspryd Cristionogol nid oes perygl; o herwydd, y maent hwy wrth ddwyn yn mlaen eu hochr hwy o'r ddadl, yn cael cyfle i ddyrchafu y pethau mwyaf pwysig mewn crefydd, a dangos yr angenrheidrwydd o honynt i bob dyn, bach a mawr, sef, *undeb â Christ*, *cyfranogiad o'i Yspryd ef*, *a golchiad yn ei waed ef*, mewn trefn i fod yn gymhwys i fedydd, ac i bob rhan o grefydd Crist, yn y nef, ac ar y ddaear: ac fod bedydd yn arwyddo *marwolaeth ac adgyfodiad Crist*, a *marwolaeth credinwyr* i bechod, a'u hadgyfodiad ysprydol i fyw buchedd newydd, ac i wisgo Crist am danynt. Mae y *gwythienau aur yma* yn cerdded trwy fedydd, yn ol y Testament newydd, fel y mae'r efengyl ei hun yn cael ei darlunio, wrth bregethu bedydd yn ol y gair. Yr ydym yn cael y blaen yn hyn ar y blaid arall yn mhell; o herwydd y maent hwy mewn perygl, wrth ddadleu dros fedydd plant, i *guddio* marwolaeth ac adgyfodiad Crist oddiwrth y bobl, yn y bedydd; a chuddio yr angenrheidrwydd o olchiad yn ngwaed Iesu, ac ail-eni—ac undeb a pherthynas ysprydol âg ef: ac yn lle hyny *godi* yn

*uchel*, ac *ardderchogi santeiddrwydd yn tarddu o berthynas* y plant â rhïeni duwiol, mewn modd ag sydd yn cymylu eu holl athrawiaeth hwy eu hunain y'mhob lle arall, yn *gystal* a gorchuddio y pethau sy'n achub dyn yn ol y Testament newydd. Bod yn blant naturiol i Abraham, neu trwy *broselytio*, oedd dan gyfammod yr enwaediad yn rhoi hawl i enwaediad, ac i fwyta oen y Pasg; nid oedd duwioldeb yn ofynol. Ond yn y cyfammod gras, undeb ysprydol â Christ sydd yn rhoi cymhwysder i fach a mawr i fyned i'r nefoedd, ac i fwynhau yr ordinhadau ar y ddaear. Yr un cymhwysder sydd ofynol i'r naill a'r llall; am hyny nid ydym yn darlunio bedydd yn burach na'r nefoedd.

Yr ydym ni, y Bedyddwyr, yn golygu y pethau yr ydym yn cyttuno â'r Anymddibyniaid a'r Methodistiaid yn llawer mwy eu pwys na'r pethau yr ydym gwahaniaethu yn eu cylch. Cytunwn am gyfiawnhad pechadur trwy gyfiawnder Crist, ac undeb âg ef yn mhob lle ond wrth y bedyddfan. Yno mae un ochr yn dadleu rhinwedd perthynas â rhïeni—ond nyni a gyfrifwn yno, fel yn mhob lle arall, bob peth o'r fath na byddo yn cyrhaedd undeb ysprydol â'r Cyfryngwr yn dom a cholled.

Nid ydym yn gosod bedydd yn iachawdwriaeth, nac yn angenrheidiol i iachawdwriaeth. Credwn fod y babanod difedydd yn gadwedig hebddo—yr hyn sydd yn amhëus am danoch chwi, wrth y bedydd-lestr. Dynion wedi cael gras ac undeb â Christ ydym ni yn farnu yw deiliaid bedydd; am hyny ni allwn osod iachawdwriaeth ynddo, neu i'w chael trwyddo. Eithr mewn trefn i ddyfod ato, ceisiwn arwyddion o undeb â Christ. Nid yw bedydd ond un o ddyledswyddau y saint, i'w chyflawni o gariad at Grist.

Golygwn ni yn driniaeth hollawl anghyfiawn i ni gael ein gosod allan fel rhai yn "*paganeiddio*" y wlad, o herwydd yn unig ein bod yn sefyll dros yr angenrheidrwydd o gyfranogiad o Yspryd Crist i wneuthur

Cristion, yn y nef ac ar y ddaear—a datgan na all perthynas â neb rhïeni droi neb o fod yn Bagan yn Gristion; er ei fod gynt yn troi rhai o fod yn Genedloedd yn Iuddewon. A oes modd i "*baganeiddio*" wrth ddangos yr angenrheidrwydd o ffurfio Crist yn mhawb i'w gwneuthur yn Gristionogion, ïe, bychain a mawrion. Dyna y ffordd oedd gan yr Apostolion gynt i *Gristionogi*, sef, trwy ffurfio Crist ynddynt; mewn trefn i hyny, yn sobr tebygem mai ffordd i rith-Gristionogi ydyw yr hon a ddygir y'mlaen ar sail perthynas y naill ddyn â'r llall, ac nid perthynas â Christ, pen y cyfammod Yr ydym ni yn sefyll o du anrhydedd Crist yn y ddadl hon; a'r blaid arall o du anrhydedd perthynas y naill ddyn â'r llall, sef rhïeni a phlant. Nid yw hyny, yn ol ein barn ni, yn wyneb dydd y cyfrif, yn *Gristionogi*, nac *anmhaganeiddio* neb, namyn eu *Iuddeweiddio* hwynt: o herwydd, perthynas y naill ddyn â'r llall gynt oedd yn troi Paganiaid yn Iuddewon; ond perthynas ysprydol â Christ, yn wir, sydd yn troi Paganiaid yn Gristionogion. A thegwch yw cyfaddef fod y blaid arall yn cytuno â ni, yn hyn, yn mhob lle ond wrth y *bedydd-lestr;* o herwydd paham mae holl ranau eraill eu crefydd yn gwrth-daro yn erbyn taenellu babanod, ac yn sicr, yn ol ein barn ni, ryw dro i gael y goreu arno. Mae hyn i sylwi arno yn dra dwys o herwydd ei hynodrwydd, nad yw yr Anymddibyniaid a'r Methodistiaid yn ymresymu am fedydd fel am byngciau eraill o grefydd. Yn y lleill ni ymfoddlonant heb resymau goleu a chedyrn, cyson a diweddgloiadol; ond am fedydd, arferant y cyfryw esponiadau, a'r fath ddeongliad, a'r fath resymau, a'r fath haeriadau, megis pe na buasent erioed wedi chwilio ac astudio y pwngc bedydd, na throi i'r Bibl at yr adnodau perthynol i'r ddadl.* Ger bron Duw, felly

* Prawf o hyny ydyw cynnyg profi fod plant gwedi eu bedyddio â bedydd Cristionogol, trwy eu bedyddio i Moses; er bod y bed-

yr ydym yn eu gweled. Fel prawf o hyny, nid oes dim un rheswm a nodwyd, ac a ddifynwyd gan T. Powel, a D. W. a ddeil ei drin, ac a ddeil ei ffordd yn wyneb y gair, fel y rhesymau a godant, ac a ddefnyddiant, dros ranau eraill o'u crefydd. Nid diffyg talentau yw'r achos o hyn. Gwybydd, ddarllenydd, yn syml, na fuasai y llyfryn hwn byth yn cael ei ysgrifenu oni buasai parch i Grist, a chariad at y gwirionedd, a hiraeth am i Grist gael ei ogoneddu gan dduwiolion yn ol ei siampl a'i *gommissiwn* ei hun. Ond dichon, ddarllenydd, mai ei daflu o'th law a wnai yn lle ei ddarllen gan feddwl mai cynnyrch rhagfarn a phleidgarwch anghristaidd ydyw. Yr wyf yn tystio mai o gariad at Grist, ac at les eneidiau dynion yr ysgrifenwyd ef: am hyny, O darllen ef! a bendithied Duw ef mor belled ag y mae yn unol â'i air.

Trwy droi cyfammod yr enwaediad yn gyfammod gras y mae T. P. ac eraill, yn gosod i lawr sylfaen bedydd plant: ond dangosir genym mai dau gyfammod oeddynt. 1, Yr oedd y cyfammod gras yn achub rhïeni a phlant o gylch mil o flynyddau cyn i gyfammod yr enwaediad gael ei lunio. Gwel Act. 7. 8. a Rhuf. 4. 8, 9. Cyfiawnhawyd Abraham yn y dienwaediad, pryd nad oedd mwy o berthynas weledig rhyngddo a Duw, yn ol athrawiaeth T. P. nac anifeiliaid y maes. 2, Torwyd cyfammod yr enwaediad; ond ni thorwyd y cyfammod gras erioed. Gwel Zech. 11. 10. Sylwer, 3, Nid tra yr oeddynt yn fabanod yr oedd cyfammod enwaediad yn rhoi aelodaeth; ond dros eu holl fywyd. Nid oedd un annuwioldeb yn eu difeddiannu o honi—nid oedd lle i'w bwrw hwy i'r byd; canys yr oedd y byd yn eglwys, a'r eglwys yn fyd; ac nid oedd diaelodiad llai na lladd y corph. Eu

---

yddiad troellog hwnw yn agos i ddwy fil o flynyddau gwedi cymeryd lle, cyn ordeinio gan Dduw y bedydd Cristionogol yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân; am yr hwn y mae ddadl. 1 Cor. 10. 2.

perthynas hwy âg Abraham oedd sail yr aelodaeth, ac yr oedd y berthynas hòno mor gadarn i ddyn yn gan mlwydd ag yn wyth niwrnod oed. Y Tad Abraham, medd y gŵr goludog yn uffern. Nid ydyw aelodaeth babanod yn parhau ond ychydig yn bresennol; o herwydd hyny nid yw yn unol â chyfammod yr enwaediad na'r cyfammod gras. Holiad.—Pa bryd y bu gan Dduw eglwys yn y byd, a'r plant yn meddiannu aelodaeth trwy rinwedd perthynas â'u rhïeni, heb barhau yn y meddiant tra parhai y berthynas? Aelodaeth eglwysig yn y cyfammod gras sydd erioed yn weledig i'r rhai oedranol, ar broffes o'u perthynas â Christ, ac yn ddirgelaidd i fabanod sydd yn meirw, trwy waith Yspryd Crist arnynt. Pan y gwrthgilio proffeswyr, neu syrthio i bechod, rai o'r cyfryw a gawsant aelodaeth ar sail arwyddion o'u perthynas â Christ, y maent yn colli aelodaeth pan y diflano y cyfryw arwyddion, neu ymddangosant dan gwmwl, neu fyned o'r golwg. Rhoi aelodaeth i blant ar gyfrif eu perthynas â'u rhïeni, a'u cyflwyno trwy daenelliad, nid oes sail byth i'w diaelodi am un annuwioldeb, na'u difeddiannu o'u haelodaeth, o herwydd fod y berthynas naturiol rhyngddynt â'u rhïeni yn aros yr un. Os oes ganddynt hawl ar y sylfaen hòno, un amser o fywyd, y mae yn aros tra parhao y berthynas. Gallwn ninneu ofyn, Pa bryd y bu plant yn meddiannu aelodaeth ar sail perthynas â'u rhïeni, heb feddiannu hawl i fwyta oen y Pasg yn gystal ag enwaediad, gyda'u rhïeni, a hyny dros fywyd? Tua diwedd y drydedd, a dechreu y bedwaredd ganrif, yn Affrica, gyda'r un dynion, y gosodwyd bedydd plant a'u cymmundeb ar yr un sylfaen—a dylent ganlyn eu gilydd: plant yr un tad un fam ydynt. Gwna yr un rhesymau y tro dros y ddau, gan ddywedyd, Na ellir byth brofi fod plant yn anghymwys i gymundeb, wrth fod credinwyr yn gymwys. Yn mha le yn y Bibl y darlunir dyn yn oddefol yn ei fedydd? ond yn weithgar yn y cymundeb. 2, Ufudd-dod personol ydyw y ddau,

yn ol y Bibl, ac yn gofyn ffydd. Rhaid llunio hyn heb y gair, fel colofn gref i gynnal bedydd plant; ufudd-dod personol sydd ofynol at fedydd a'r swpper santaidd.

Os enwaediad yw rhëol bedydd plant, paham na baech yn dilyn y drefn hòno, 1, Trwy ladd yr holl blant a'r dynion difedydd, fel yr oedd y gyfraith hòno yn galw. Gen. 17. 14. Torir ymaith yr enaid hwnw. Tori o'r eglwys yn Israel oedd tori o'r byd i'r bedd, o herwydd yr oedd y wlad a'r eglwys yn anwahanol. 2, A thrwy adael iddynt aros yn aelodau dros fywyd gwedi eu derbyn trwy fedydd. Nid cymeryd cenhedloedd cyfain, o Saeson na Chymry, a wnaeth Crist, megis y genedl Israelaidd: eithr cymeryd *pobl i'w enw, allan o'r cenhedloedd a wnaeth ef.*

Dalier sulw, fel na wneir cam âg un blaid. Mae y Bedyddwyr a'r blaid arall yn golygu ac yn credu mai yr un yw' eglwys fawr ddirgeledig, ac a unwyd â Christ yn y cyfammod gras, o roddiad yr addewid gyntaf hyd yn awr; yr *un yw hi fy ngholomen.* Ond nid yr un oedd Eglwys Rhufain ag Eglwys Corinth, ac nid yr un wraig, eithr dwy, oedd yr Eglwys efangylaidd a'r Eglwys Iuddewig; yr hon yr oedd yr Arglwydd yn wr iddi y pryd hyny oedd yr un Iuddewig, ar sail cyfammod yr enwaediad, yr hwn a dorwyd. Heb. 8. 7, 8, 9, 10; a darlunir yr eglwys efangylaidd—*yr hon a adawwyd*—yr hon er hyny a fyddai amlach ei meibion. Isai. 54. 2, 3. Cynnulleidfa yw eglwys: Yr oedd y Phariseaid yn perthyn i'r gynnulleidfa Iuddewig—ond yr oeddynt tu faes i deyrnas nefoedd, neu y gynnulleidfa efangylaidd. Nid yr un oedd y Jerusalem isod a'r un uchod, Gal. 4. i'r hon yr *ymwthiai* y Publicanod dychweledig. Mae y pethau hyn mor amlwg—eto gosodir y Bedyddwyr allan yn hereticiaid am ddywedyd mai nid yr un yw *Iuddewaeth a Christionogrwydd!!!* er bod y blaid arall yr un farn a hwynt yn mhob lle ond wrth y *bedydd-lestr.* Nid gwir yw, mai rhïeni

a phlant, fel y cyfryw, sydd yn gwneud i fynu'r *eglwys ddirgelaidd:* eithr rhïeni a phlant a unwyd â Christ, yn ol barn y ddwy blaid: a rhïeni a phlant yn proffesu Crist sydd yn gwneud i fynu yr eglwys weledig dan y Testament newydd; ond Iuddewiaeth oedd yn cael ei gwneud i fynu o rïeni a phlant, ar sail eu perthynas naturiol â'u gilydd, a phroselytiad.

Dalier sulw neillduol. Dywedir ein bod ni yn *paganeiddio* pawb y sydd yn ddifedydd. Yr ydym yn cael cam mawr trwy ein darlunio felly—mae y fath ddywediad am danom yn tarddu o amryw gamsyniadau: 1, O honiad mai bedydd sydd yn Cristionogi; os felly, rhaid bod pawb cyn Abraham, rhïeni a phlant, yn golledig, a phlant y dibroffes a'r eiddo y Bedyddwyr yn golledig oll. 2, Darlunio y Bedyddwyr o'r cyfryw farn, mai bedydd sydd yn Cristionogi; pan, mewn gwirionedd, y maent hwy yn dal fod yn rhaid bod yn Gristion cyn bod yn wir ddeiliad bedydd —ac nad yw bedydd ond un o'r ffyrdd sydd i *broffesu Cristionogrwydd*, ac nid Cristionogrwydd ei hun.—Credwn ni fod miloedd yn wir Gristionogion, er eu bod heb eu bedyddio yn ol y gair. Trueni yw cam ddarlunio neb. Nid oedd Simon Magus yn Gristion, er cael ei fedyddio, a bod ei ufudd-dod yn bersonol. Mae Crist yn siampl i ni, yn ol barn bedyddwyr babanod eu hunain, yn ei *weddiau*, a'i *fywyd*, ac yn y *swpper santaidd*, er iddo roddi y cyfryw siamplau cyn marw: paham llai yn ei fedydd hefyd? Gall Powel ddywedyd yr un modd, nad oedd Crist yn siampl i ni yn y cymundeb, am nad oedd achos iddo holi ei hun, mwy nag edifarhau cyn ei fedyddio.

Syndod ein bod yn cael ein darlunio yn "sôn mwy am Ioan wrth drochi ar làn yr afonydd, nag am Grist a'i ras," pan yr ym ninau yn gwrthod bedyddio neb, hyd eithaf ein gwybodaeth, heb fod Crist a'i ras ynddynt; a'r blaid arall yn arfer bedyddio heb undeb

ysprydol â Christ, na meddiant o'i ras, mewn ymofyn-iad, uac yn angenrheidiol at y gorchwyl.

Gwanaidd iawn y mae David Williams, o Lanwrtyd, yn profi fod babanod yn yr eglwys apostolaidd, trwy nodi Col. 1. 2, a 3. 20. Saint a'r ffyddlon frodyr——y plant ufuddhewch i'ch rhïeni yn mhob peth da. Plant mewn oedran i ufuddhau oedd y cyfryw, ac yn saint a ffyddloniaid yn Nghrist. Mae miloedd o'r fath yn eglwysi y Bedyddwyr y dydd heddyw yn Nghymru.

Plant dy weision a barhant; a'u had a sicrheir ger dy fron di. Salm 102. 28. Nid yw bedyddio yn eu sicrhau, ond y mae eu haelodaeth yn darfod, yn ol barn y blaid a'i harferant. Nid proffes mewn enw sydd yma, ond un sicr, trwy alw y plant i undeb â Christ. Nid yw bedydd plant yn sicrhau neb o'i ran ei hun, heb fod ail-enedigaeth yn ymweled â hwynt; nid yw y fath eiriau yn meddwl am daenellu, eithr. ail-eni Dyma swm ein dadl ni—Bod un blaid yn dyrchafu taenellu, a'r llall yn dyrchafu ail-eni—un dros rith, a'r llall dros sylwedd---un dros beth na achubodd neb, a'r Bedyddwyr dros y peth na achubwyd neb hebddo, na mawrion na bychain. Yr ydym yn dadgan gydâ holl rym a chysondeb yr ysgrythyrau, fod yr holl addewidion sydd yn yr ysgrythyrau yn golygu babanod, ac yn gyfeiriedig atynt, nid ar sail eu perthynas â'u rhïeni, fel yr oedd addewidion Iuddewiaeth, eithr ar sail perthynas ysprydol â Christ, i'r hon y caent eu dwyn trwy Yspryd Crist; ac ni chyflawnwyd un addewid i fabanod erioed perthynol i'r cyfammod gras, na byddai y cyflawniad o honi yn eu dwyn i berthynas ysprydol â Christ, yr hon ni ddiddymir, ac nid rhyw ledrith dibarhâd fel bedydd plant.

Sylwa eto. Taerir mai yn *Germany* y dechreuodd y Bedyddwyr, o gylch tri chant o flynyddau yn ol, gan John Leyden. Ni all y pwyllog lyngcu hyn; mae delw ein bedydd ni yn rhy amlwg, gwedi ei thynu o gopi mawr *commissiwn* Crist. Mat. 28. 10: ac o ddarlun

ei fedydd ef yn afon yr Iorddonen, yn ddeg ar hugain oed. Luc 3. 3, 7, 12, 16, 21. Math. 3. 11, 13—16: ac yn siampl yr Apostolion. Act. 2. 38, 41. pen. 8. 12, 13, 16, 36, 38. pen. 9. 18. pen. 10. 37. pen. 11. 16.

Am y rhai a elwir Bedyddwyr *Germany*, ni ellir cael gwybod dim yn safadwy a phenderfynol yn eu cylch hyd ddydd y farn; o herwydd mai eu gelynion a ysgrifenasant eu hanes hwynt: ac yn wir os yw yr hanes am John Leyden mor anwireddus ag ydyw yr hanes a ysgrifenwyd gan T. P. a D. W. am Fedyddiwr yn Llanymddyfri, mor agos atom, dichon fod John Leyden yn wr da ddigon. O! paham y teflir y rhai hyn i'n gwarthruddo ni, mwy nag yr ydym ninau yn taflu *teulu llofruddiog y Chwilys* i'r blaid arall, y rhai oll oeddynt daenellwyr plant: ond beth yw hyny i'r taenellwyr presennol, gan nad ynt yn eu dilyn yn eu drygioni, ond yn unig yn y taenellu. O'r ochr arall, nid yw y Bedyddwyr yn dilyn y rhei'ny mewn dim ond bedydd; ac nid o barch iddynt hwy, ond i Grist, y maent yn bedyddio drwy drochiad, yr hwn ei hun a aeth i wared i, ac i fynu o'r dyfroedd. Math. 3.

Da a buddiol a fyddai deall y gwahaniaeth y sydd rhwng yr *Anymddibyniaid* a'r *Trefnyddion* â'r Bedyddwyr, yn y ddadl fedyddiawl. Tybia rhai fod y gwahaniaeth yn gorwedd yn hyn——Fod y cyntaf dros iachawdwriaeth plant bychain, a'r olaf yn erbyn y cyfryw: ond nid yma y mae y gwahaniaeth. Dadgan un ochr fod perthynas naturiol â rhïeni yn rhoddi hawl mewn bedydd; a'r ochr arall a ddatganant mai undeb â Christ, pen y cyfammod, sydd yn rhoi hawl a chymmwysder. Dadleua un ochr mai ufuddhad y rhïeni yw bedydd, fel enwaediad; sicrha yr ochr arall mai *ufudd-dod personol* sydd yn ofynol i fedydd, yn ol gair Duw. Dywed Bedyddwyr plant fod rhyw oruchwiliaeth allanol yn perthyn i'r cyfammod gras, yn yr hon y gosodant blant credinwyr mewn lle canol, rhwng y byd a Christ. Y Bedyddwyr o'r tu arall a ddywedant mai

teyrnas ysprydol yw teyrnas Crist; ac nad oes dim llai nag undeb â Christ a ddichon osod neu godi neb o'n natur ni iddi; bod goruchwyliaeth y cysgodau gwedi myned heibio, a *gwnaethpwyd pob peth o'r newydd.* Gwadant hwy fod un oruchwyliaeth grefyddol i blant, tu yma i dderbyn Yspryd Crist. Mae y bedyddwyr yn credu fod plant bychain sydd yn marw yn eu babandod yn myned i'r nefoedd, ond nid heb gyfnewid eu hanian, ac agor eu synhwyrau, a'u golchi y'ngwaed Crist; a'u huno ag ef, trwy yr hwn mae iachawdwriaeth pawb, bach a mawr; heb yr hyn ni allant fwynhau bendithion ysprydol y nefoedd uchod, mwy na'r nefoedd isod yma. Bedyddwyr babanod a daerant nad oes eisiau undeb ysprydol â Christ ar blant i fod yn grefyddol, ond ar bobl oedranol yn unig. Mae ganddynt rai crefyddwyr heb angen arnynt am undeb â Christ, ond undeb â'u rhïeni, ac eraill—mae'n rhaid iddynt gael undeb â Christ, neu ni allant fod yn grefyddol. Ond y Bedyddwyr, o'r tu arall, a ddatganant fod derbyniad o Yspryd Crist yn llwyr angenrheidiol i'r babanol a'r oedranol ranau o'r natur ddynol, cyn y byddo dichon iddynt fwynhau bendithion y deyrnas nad yw o'r byd hwn. Er bod eu genedigaeth o genedl Abraham gynt yn rhoi hawl yn mendithion cyssegr bydol, *siampl a chysgod y pethau nefol.* Heb. 9. 1. a 8. 5. Swm y ddadl rhyngddynt yw, bod y Bedyddwyr yn sefyll dros yr angenrheidrwydd o undeb â Christ, trwy ei Yspryd ef, i roi cymhwysder i bob un unigol o'n natur ni i fwynhau iachawdwriaeth, ac ordinhadau y Testament newydd yma, a gogoniant yr ochr draw. A'r Anymddibyniaid a'r Trefnyddion yn dadgan yn rhydd, o'r tu arall, nad yw undeb ysprydol â Christ, pen y cyfammod, yn angenrheidiol ar gyfer rhan fawr o'n natur ni, sef y babanod; ond gwnant aelodau eglwysig o'r goreu o honynt, heb effaith gwaed ac Yspryd Crist; fel yr enwaenwyd hwy yn nyddiau *iau caethiwed.* Saif y cyntaf dros anrhydedd Crist a'i Yspryd,

a'i waed ef, ar ddeiliaid ei gyfammod; a'r olaf dros anrhydedd y *santeiddrwydd perthynasol* sy'n tarddu o berthynas naturiol â'u rhïeni!!!

Y gwahaniaeth rhyngddynt am y dull o fedydd yw, bod un ochr yn dadgan mai bedydd ydyw *soddi,* neu *drochi* mewn dwfr, yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân; a'r ochr arall yn dadgan fod taenelliad yn yr enw dwyfol yn burion dull o fedydd. Mae bedyddwyr *plant* yn dadgan fod angen anhepgorol am gyfranogiad o Yspryd Crist i Gristionogi pobl oedranol; ond gallant hwy *Gristionogi* babanod eu hunain, trwy rinwedd eu perthynas naturiol â'u rhïeni, heb undeb â Christ trwy ei Yspryd ef.

Hynod a dieithr ydyw medru *Cristionogi* heb effaith Yspryd a gwaed Crist. *Cristion di Grist* sydd air dieithr i brofiadau yr ochr sydd drosto, ond yn unig wrth y bedydd-lestr. Y Bedyddwyr, o'r tu arall, a ddadganant, nad oes modd *Cristionogi* y *Paganiaid tramor,* ond trwy eu huno â Christ, na Christionogi eu *babanod gartref* chwaith, ond trwy i Yspryd Crist eu dwyn i undeb âg ef, pen y cyfammod. Maent *hwy* yn cael y blaen ar y Bedyddwyr yma, yn y pwngc hwn; canys, er na fedrant hwy *Gristionogi Paganiaid oedranol,* yn gartrefol na thramor, heb Yspryd Crist, eto gallant Gristionogi yr holl blant, o'r eiddynt eu hunain, heb ei Yspryd ef, a'u cyhoeddi yn Gristionogion, heb undeb â Christ. Mae hyn, y'ngolwg profiad syml, yn debycach i *anghristeiddio* yn hytrach na *Christioneiddio*: o blegid nad oes dim o'i Yspryd yn y gwaith, ond yn unig benthycio ei enw. Na atto Duw fod y Bedyddwyr yn *paganeiddio* neb, wrth ddadgan mewn athrawiaeth, a dal mewn arferiad, nad oes modd Cristionogi neb o unrhyw oedran, o'r rhyw ddynol, i fyned i'r eglwys orfoleddus, na'r filwriaethus, heb Yspryd Crist yn ei huno yn ysprydol ag ef. A oes modd i baganeiddio ac anghristeiddio neb, trwy ddadgan yr angen anhepgorol o gyfranogi o Yspryd Crist, a meddu

undeb ag ef, mewn trefn o gael lle yn ei deyrnas ysprydol, tu yma a thu draw i'r bedd. Ffordd newydd o anghristeiddio yw dadgan nad oes Cristionogrwydd heb undeb â Christ, i fawr na bach. "Yr hyn a aned o'r cnawd sydd gnawd—a'r hyn a aned o'r Yspryd syddYspryd." Mae'r geiriau hyn, yn wir, yn perthyn i bob un unigol o'n natur—onide mae yn rhaid dal fod babanod yn myned i'r nef heb fod Yspryd Crist yn cyfnewid eu hanian, a'w gwneud yn ysprydol. Os dyna y ffordd i baganeiddio y wlad, y mae y blaid arall yn paganeiddio fel nineu yn mhob lle ond gydâ'r bedydd-lestr; oblegid safant dros yr angenrheidrwydd o undeb ysprydol â Christ, fel nineu, ond yno. Prif sylfaen ymresymiad y Bedyddwyr yw rheswm mawr y *diwygwyr* oddiwrth Babyddiaeth, sef, *fod "gair Duw yn berffaith rëol ffydd,"* ac arferiadau Cristionogion. Amlwg yw nad oes orchymyn na siampl am fedyddio plant i'w chael; am hyny rhaid mai rhyw fath o *gasgliad anysgrifenedig* yw bedydd plant, yn ol barn awdwyr lawer o'r blaid arall.

Parch goruchel i Grist a'r efengyl sydd yn unig yn cynnal y Bedyddwyr i sefyll dros eu hochr hwy; o herwydd maent yn gorfod aberthu llawer o bethau anwyl gan gnawd, wrth lynu wrth drefn *bedydd yn ol y Testament newydd*, eu *clod*, a'u *poblogrwydd yn fynych*. Eu llafur i fyned *i'r dwfr*, yn lle cael dwfr atynt. Mae'n gofyn Yspryd ffydd, a gweddïau, ac edrych ar yr anweledig yn dra helaeth, i gynnal dyn i fyned yn erbyn ffrwd defod ac *arfer gwlad*. O herwydd yr aberthau hyn a roddwn i lawr o barch i'r Pen bendigedig wrth ei groes. Mae y Bedyddwyr gwedi chwilio y pwngc bedydd, gyda y monteision hyn, debygid, gydâ mwy o anmhleidgarwch na'r ochr arall, canys mae y blaid arall yn dilyn ffordd o fedydd nad oes eisiau aberthu dim anwyl gan gnawd i'w arfer; ond y mae y Bedyddwyr yn chwilio y Bibl yn nghylch

bedydd, gyda dymuniad i weled fod iddynt sail ysgrythyrol i gymeryd ffordd arall o fedydd, esmwythach i gnawd, heb groes mor drom, pe gallent ei gweled; cerddent hi pe gallent farnu hyny yn bossibl heb roddi i fynu ran o barch dyledus arnynt i Grist.—Dyna 'r gwir.

Darllenais y ddau lyfr dros fedydd plant, o waith dau o weinidogion yr Anymddibynwyr, sef Mr. Powel, o Aberhonddu, a Mr. David Williams, o Lanwrtyd. Gwnaf ystyried eu rhesymau dros fedydd plant bychain, a thaenelliad fel y dull o hono.

Dros fod plant bychain yn ddeiliaid bedydd, mae yn nodi, 1, Cyfammod yr enwaediad a wnaethpwyd ag Abraham. 2, Llais ymddygiad Crist. 3, Tystiolaeth yr Apostolion. 4. Bedydd teuluoedd. 5, Hanesyddiaeth. Dyma y pum colofn sydd wedi eu gosod dan deml fawr bedydd plant. Ond Cyfammod Abraham yw y brif golofn; os gellir dangos mai colofn wan ac ansicr yw hòno, ni eill y deml sefyll i fynu yn hwy.

I, *Y Cyfammod âg Abraham.* Gen. xvii. 7.—11. 1, Yn hwnw addawir gwlad Canaan 2, Addawir gan Dduw i fod yn Dduw iddo ef a'i had. 3. Mae enwaediad pob gwrryw yn cael ei alw yn arwydd y cyfammod hwnw. Mae yn amlwg fod Duw gwedi bod yn gyfammodol â hâd cnawdol Abraham, neu y genedl Iuddewig, mewn ystyr wahanol i'r hyn y mae i'w bobl yn y cyfammod gras. Ni thorodd ei berthynas erioed â deiliaid y cyfammod grâs, ond torodd y llall. A ffon hyfrydwch a dorodd Duw i dori ei gyfammod yr hwn a ammodasai ef â'r holl bobl. Zech. xi. 10.

1. *Mae'n amlwg i Dduw dori cyfammod yr enwaediad*—ond ni thorodd ef erioed y cyfammod gras. O herwydd, medd ef, Fy nghyfammod ni thoraf, ac ni newidiaf yr hyn a ddaeth allan o'm geneu; o herwydd mae ef yn ysgrifenu ei gyfraith yn eu meddwl hwynt, a bydd yn Dduw iddynt heb alw hyny yn ol. Heb. viii. 9. 10.

2. *Gwnaeth Duw gyfamod gras âg Abraham,* sydd *wir*—ond nid âg Abraham yn unig y gwnaeth ef y cyfryw gyfammod, eithr â Dafydd; 2 Sam 23. 5. ac â'r holl gredinwyr, "Cesglwch ataf fi fy saint y rhai a wnaethant gyfammod â mi trwy aberth." Cyfammod tragywyddol, anniddymol, gwedi ei *luniaethu yn hollol a sicr,* yw hwn; ac yn cynnwys eu holl iachawdwriaeth. Ond âg Abraham yn unig y gwnaethpwyd cyfammod yr enwaediad—ac nid oedd yn diogelu iachawdwriaeth neb o'i ran ei hun. Ni achubwyd un enaid trwy gyfammod yr enwaediad.

3. *Yn nyddiau Abraham pan oedd yn hen,* y gwnaeth Duw gyfammod yr enwaediad, ac nid oedd mewn bod cyn hyny—ond yr oedd y cyfammod gras mewn grym yn achub o Abel hyd Enoc, o Enoc hyd Noa; ïe, fabanod a dynion oedranol. Tra sicr yw fod Abraham ei hun wedi cael ei ddwyn i'r cyfammod o ras, a Duw yn Dduw iddo, ac mewn undeb â Christ. Gwel yr addewid oedd iddo. Gen. 12. 3. Yr addewid wreiddiol i Abraham, hòno oedd yn cynnwys y cyfammod gras yr hwn a gadarnhaodd Duw yn Nghrist. Gal. 3 17. yn yr hwn y bendithir holl deuluoedd y ddaear: at hwn y mae Paul yn cyfeirio yn Rhuf. 4, a Gal. 3, ac nid at gyfammod yr enwaediad. Mewn gair, fe ymddengys fod y cyfammod gras wedi ei wneuthur âg Abraham o gylch 24 o flynyddau cyn llunio cyfammod yr enwaediad, ac yr oedd ef wedi ei gyfiawnhau hyny o amser cyn ei enwaedu. *Insel* oedd yr enwaediad iddo ef o gyfiawnder y ffydd yr hwn oedd wedi ei gael yn y cyfammod gras, yn mhell cyn i Dduw orchymyn enwaediad iddo.

4. *Newidiodd Cyfammod yr enwaediad*—aeth enwaediad yn iau caethiwed, pan newidiodd y cyfammod oedd yn rhoi awdurdod iddo. Ni newidiwyd un ordinhad o drefn Duw ar y ddaear heb newid y cyfammod a'r oruchwiliaeth y perthynai iddo, ac y derbyniai

ei hawdurdod oddiwrthynt; ond nid yw'r cyfammod gras byth yn newid. Yr un yw Iesu Grist ddoe a heddyw, ac yn dragywydd. Cyfammod cyfnewidiol oedd yr enwaediad—ond un digyfnewid yw'r cyfammod gras; o ran mai perthynas â Christ, ei ben ef, sydd yn rhoi aelodaeth, ac achubiaeth, yn mhob oes o'r byd.

5. Daliwn sulw, *Nid Abraham yw y pen yn y cyfammod gras*—ond Crist: ac os yw Abraham yn ben, mae'n rhaid mai cyfammod yr enwaediad yw hwnw y mae ef felly. Yn Nghrist y bendithiwyd Abraham yn y cyfammod gras, fel pob credadyn arall. Gwelodd ddydd Crist, a llawenychodd. Nid pen cyfammodol yw ef, yn y cyfammod gras, na gwrthddrych na ffynon gras—ond credadyn enwog. Gwel Rhuf. 4. 1—12. *patrwn* a siampl credinwyr, hyny a feddylir wrth ei fod yn dad pawb a gredant; ond nid oedd dim olew ynddo y'ngweddill i neb arall. Nid *gwreiddyn* a'r nôdd ynddo i'r cangenau yw efe, ond *cangen* yn Nghrist, y *gwreiddyn* yn yr hwn mae 'olew neu nodd ar gyfer yr holl gangenau. Na wneler Abraham yn ben cyfammodol, eithr cangen enwog. Na roddwn le Crist i Abraham; er dim, gadawn i Grist fod yn wreiddyn i Abraham a Dafydd

Tebygid y gellir dwyn hyn i'r goleuni, o blegid lled debyg yw fod Abraham yn ben cyfammodol yn nghyfammod yr enwaediad; os oedd felly mewn un gallasai fod yn ben naturiol—ond Crist erioed oedd, ac a fydd byth, yn ben y cyfammod gras, ac yn sicrhau ei fendithion drwy ei dair swydd gyfammodol, prophwyd, offeiriad, a brenin. Amlwg yw hyn, mai undeb â'r pen cyfammodol sydd yn rhoddi hawl ac yn *ffurfio cymundeb* yn y breintiau, neu fygythion unrhyw gyfammod. Ein hundeb ni âg Adda a barodd i Dduw edrych arnom ni oll, yn fyw *tra safodd ef*, ac yn farw pan y pechodd, ac y cwympodd. Yn nghyfammod yr enwaediad, undeb âg Abraham, fel ei ben naturiol,

trwy waedoliaeth, prynu âg arian, caethwasoliaeth, neu broselytio, oedd yn rhoi hawl yn nghyfammod yr enwaediad, ac yn yr eglwys a'r wladwriaeth dano ef; y'nghyd a gorchymyn Duw o enwaedu. Yr oedd proselytio yn corpholi y dieithr âg Abraham fel pen, fel yr oedd y *proselyt* yn cael edrych arno fel *yr hwn a aned yn y wlad,* nid yn yr eglwys yn unig, fel y dadgan T. Powel, a D. Williams. Gen. 17. 12. Ecsod. 12. 48. Onid oedd y Ceneaid yn meddiannu dinasoedd yn ngwlad Juda. A Ruth, y Foabes, ac Ornan, y Jebusiad, lawr dyrnu a ffustiau o leiaf, o werth deg a deugain o siclau arian. 2 Sam. 24. 24. Llais cyfammod yr enwaediad oedd, Os eiddo Abraham ydych, trwy waedoliaeth, neu *brynu* âg arian, neu *broselytio,* yna etifeddion ydych, trwy eich undeb âg ef yn y cyfammod hwnw. Ond *llais* ac *iaith* y cyfammod gras, yn yr hwn y mae Crist yn ben, ydyw, *os eiddo Crist ydych,* yna had Abraham, ac etifeddion gyd ag ef yn y cyfammod gras. Undeb âg Abraham a roddai hawl yn nghyfammod yr enwaediad, ac undeb plant â'u rhïeni a rydd hawl aelodaeth eglwysig yn awr, yn ol cyfammod yr enwaediad, ar yr hwn y sylfaenir bedydd plant; ond undeb â Christ, fel pen y cyfammod gras, oedd erioed, ac a fydd byth, yn rhoi hawl yn ei freintiau ef. Gal. 3. 29.

Dywedir yn Llyfr gair Duw, &c. dal. 10, "Os nad oedd cenedl Abraham yn eglwys neu gynnulleidfa, fod Duw heb un eglwys ar y ddaear dros agos i ddwy fil o flynyddoedd." Eiddo yr Israeliaid o herwydd eu perthynas âg Abraham oedd y *mabwysiad* gwladol, sylfaenedig ar undeb âg Abraham, y *cyfammodau, gosodiad* y ddeddf, a'r addewidion,—a *haniad* Crist o honynt yn ol y cnawd. Prif ddiben enwaediad oedd, eu cadw yn deulu gwahanol, o herwydd, o honynt yr oedd Crist i ddisgyn o ran y cnawd. Ond dengys yr Apostol fod Israel ysprydol yn mysg Israel naturiol, er eu bod oll yn blant yn nghyfammod yr enwaediad,

yn ol y mabwysiad gwladol, o herwydd eu bod yn had Abraham: nid oeddynt er hyny yn blant neu gynnulleidfa o ffyddloniaid, ond trwy eu hundeb â Christ yn y cyfammod gras; *canys nid Israel*, neu wir eglwys Dduw oedd pawb oedd o *Israel*, fel cenedl dan enwaediad. Plant yr addewid a gyfrifwyd erioed yn had, neu yn wir eglwys yn ol y cyfammod gras; er bod yr holl genedl yn eglwys ddigrist dan gyfammod yr enwaediad, nid oedd ond y rhai ail-enedig yn y cyfammod gras. Pwy a ddymunai godi eglwysi di-grist yn y byd; dim ond bod enw hebddo ef ei hun. Rhuf. 9. 5—8. Dal. 11. Camsynied mawr yw dadgan mai drws i'r eglwys, ar sylfaen y cyfammod gras, oedd enwaediad; o blegid petai hyny yn wir, byddai raid fod y rhan fenywaidd allan o'r eglwys. Bu babanod agos i ddwy fil o flynyddoedd dan enwaediad o herwydd eu hundeb âg Abraham, fel pen ynddo; ond ni bu babanod, na neb arall, erioed yn aelodau o'r eglwys isod, nag uchod, perthynol i'r cyfammod gras, ond trwy undeb â Christ, pen y cyfammod, o Adda hyd Abraham, ac o Abraham hyd Grist—ac ni bydd o Grist hyd ddiwedd y byd.

Pan ddarfu cyfammod yr enwaediad, yn yr hwn y dechreuodd aelodaeth babanod, a'u perthynas hwy ag Abraham golli ei rym, a dywedyd o Ben y cyfammod newydd, *Os enwaedir chwi ni lesha Crist ddim i chwi*—ac nid ynt oll yn blant o herwydd eu perthynas âg Abraham; ond os eiddo Crist ydych, ac nid eiddo rhïeni duwiol, *yna had Abraham, ac etifeddion*, yn ol yr addewid. Pryd y cauwyd allan fabanod ar sylfaen eu perthynas âg Abraham, neu â rhïeni duwiol—dyma 'r amser y darfu aelodaeth eglwysig yn llwyr ar bob sail ond undeb â Christ. Yr hwn a ddywedodd, Oddieithr geni dyn (pob un unigol o'n natur) drachefn, ni ddichon fwynhau pethau ysprydol yn y nef na'r ddaear; dyna yr hwn a dystia yn erbyn pob perthynas i gael aelodaeth, ond undeb ag

ef ei hun, yr hwn yw y bywyd. Dal. 13. "Arosodd yr eglwys yr un pan newidiwyd yr oruchwiliaeth." Eglwys yw cynnulleidfa; pe gwir a fyddai mai yr un gynnulleidfa a arosodd o hyd, sef Iuddewon a phroselytiaid, Iuddewon a fyddem ni oll. Ond y gwir yw, aeth un gynnulleidfa, sef yr un a fu yn eglwys o herwydd ei pherthynas âg Abraham, ac nid â Christ, allan, a daeth cynnulleidfa newydd i mewn, ar sail eu perthynas â Christ, pen y cyfammod newydd. Darfu yr hen eglwys fu dan enwaediad o herwydd eu perthynas âg Abraham; ac mae yr Iuddewon yn awr dan enwaediad, ond nid ynt trwy hyny dan y cyfammod gras. Arosodd yr eglwys gynnwysedig o Israel yn nghanol Israel, sef y rhai oeddynt o'r un ffydd ag Abraham, yr hon oedd ganddo yn y dienwaediad. Dyma 'r *olewydden*, Rhuf. 11. Crist yw'r *gwreiddyn* hyn, a thrwy undeb pob un o'r rhyw ddynol âg ef, mae hawl a chymmwysder i gyfranogi o'i *bráster hi*. Pe cyfammod yr enwaediad, a'r eglwys dano a fyddai yr *olewydden*, ni byddai yr Iuddewon heb fod ynddi, ac heb ei braster yn awr: canys y maent yn gosod eu plant dan enwaediad, maent yn gymmaint o had Abraham yn awr ag erioed. Yr *olewydden* sydd yn *gyfystyr* a'r deyrnas a bregethai Ioan a Christ, oedd i gymeryd lle, ac wedi dechreu, i hòno y perthyn yr olewydden, sef, cyflwr eglwysig sylfaenedig ar y cyfammod gras; a pherthynas â Christ sydd yn impio i mewn iddi. Dywed Crist am yr Iuddewon, y rhai oeddynt yn yr eglwys dan gyfammod yr enwaediad, na fynent fyned i mewn i hon, a'u bod yn rhwystro eraill o'r Iuddewon i fyned iddi. Yr oedd Paul o'i enedigaeth yn yr eglwys Iuddewig ac ni erlidiodd erioed mo honi; eto dywedir ei fod yn erlid yr eglwys efengylaidd. Phil. 3. "Yn ol sêl yn erlid yr eglwys." Mae hyn yn profi mai dwy eglwys oeddynt.

Pe gwir a lefarai y ddau awdwr, dal. 14, 15. mai ystad yr eglwys dan enwaediad yw'r *olewydden*, onid

oeddynt yn yr eglwys hòno, neu olewydden yr enwaediad, er pan yr enwaedwyd hwynt; yr hyn sydd yn dangos bod camsyniadau helaeth yn bod yn y dadganiad mai eglwys Iuddewig a ffurfiwyd dan gyfammod yr enwaediad yw teyrnas nefoedd; neu yr *olewydden*. Penderfynol yw'r hanes am ddychweliad tair mil o Iuddewon, i gyd dan enwaediad, o'r blaen; dywedir i'r "Arglwydd chwanegu beunydd at yr eglwys y rhai a fyddent gadwedig," Act. 2. 47; yr hyn ni all fod yn bossibl, os oeddynt hwy yn aelodau yn y cyfryw eglwys er eu henwaediad. Cam gymeriad tost yw dywedyd a dadgan, mai yr un yw'r eglwys yn ei threfn o dderbyn aelodau trwy gyfammod yr enwaediad, o herwydd eu perthynas gnawdol âg Abraham, a'r eglwys sydd yn derbyn aelodaeth trwy undeb â Christ, yr olewydden y torwyd yr hen eglwys Iuddewig o honi; eglwys y Jerusalem uchod, ac nid yr un isod, ydyw. Gal. 4. Hon ydoedd yr eglwys y chwanegwyd y tair mil ati, y rhai oll oeddynt gwedi eu *himpio* i mewn iddi, trwy ffydd ac undeb â Christ. Nid oedd plant ynddi, fel y cyfryw o herwydd eu perthynas â'u rhïeni; ond *cynifer a dderbyniasant ei air* yn ewyllysgar, ac hefyd o nifer y cadwedig oeddynt. Sylwa ar Rhuf. 11. Nid yw'r Apostol yn dangos un ffordd i impio y cenedloedd i mewn i'r olewydden, na modd i sefyll ynddi ond trwy ffydd—dim modd trwy berthynas â rhïeni, na dim arall tu yma i Grist. Nid oedd neb yn yr olewydden pan dorwyd yr Iuddewon o honi, ond y cyfryw a broffesent undeb a pherthynas â Christ; a phan y delont yn ol, perthynas â Christ, pen y cyfammod, fydd yn rhoi aelodaeth i bawb a'i meddiannant yn wirioneddol ar y ddaear ac yn y nef hefyd. Yr eglwys y disgynodd yr Yspryd arni ar ddydd y Pentecost yw'r olewydden. Act. 2.

Mae y cwbl a ddatganant dros hawl neb yn y cyfammod o ras, trwy undeb neu berthynas â'u rhïeni duwiol, ac nid â Christ, yn cynnwys y camsyniadau

hynod a ganlyn. Nid oedd neb plant gan Sara, ond Isaac, pan aeth Ismael allan. Gal. 4.

1. *Darlunio Abraham fel petai ef yn ben yn y cyfammod gras,* ac nid Iesu Grist; yn gyffelyb fel yr oedd yn ben yn nghyfammod yr enwaediad, fel y gwna undeb âg ef, ac nid â Christ, y tro i gaell lle yn nheyrnas nefoedd. Os oedd yn ben naturiol i'w genedl, nid yw yn ben ysprydol i neb yn lle Crist.

2. *Mae'r pwngc yn myned y'mhellach mewn anferthwch* na gosod Abraham yn ben ffynonell bendithion, a hawl i freintiau ysprydol; fel y mae yn ymgyrhaedd at wneuthur pob rhïeni proffesol yn benau cyfammodol i'w plant yn y cyfammod—ac nid Crist; mor belled a bod undeb â hwynt (ac nid â Christ) yn rhoi hawl mewn aelodaeth eglwysig, dan y Testament newydd; yr hyn ni eill fod byth heb eu bod yn benau yn y cyfammod gras, fel yr oedd Abraham yn nghyfammod yr enwaediad, ac addewidion Duw wedi eu gosod, yn y rhïeni, yn ie ac yn Amen, ac nid yn Nhgrist. Dyma, yn fyr, lle mae holl swm y ddadl rhwng y Bedyddwyr a'r Anymddibyniaid a'r Methodistiaid, am ddeiliaid bedydd. Mae profiadau yr holl rïeni duwiol yn ochri at y Bedyddwyr, ar y pwngc hwn; gwaeddant am ran yn Nghrist i'w plant—ystyriant bob peth arall yn wagedd at, dduwioldeb yma, a gogoniant yr ochr draw i'r bedd. Nid oedd Abraham, er ei fod yn fwy na neb yn nghyfammod yr enwaediad, yn gymmaint a Melchisedec yn y cyfammod gras; am hyny bendithiwyd Abraham gan ei well. Heb. 7. 1, 7.

II. Dywedant fod yr un bendithion yn cael eu dal allan yn yr enwaediad a bedydd. Mae P. tu dal.—— ei ail Lyfr, yn rhoi 4 rheswm i brofi fod enwaediad yn ordinhad eglwysig, ac nid gwladol 1, Dylasai gofio fod enwaedu Ismael a phlant Ceturah yn profi yn ogyfuwch nad oedd yn ordinhad eglwysig; canys nid oeddynt hwy'n aelodau yr eglwys ddim mwy na meddianwyr y wlad. Dylasai gofio fod Israel mewn anhep-

gorol rwymíad i ufuddhau i enwaediad wrth feddiannu y wlad, yn gystal a myned i mewn i'r meddiant. "Torir ymaith y dienwaededig o'r tir, ac o blith dy bobl," oedd iaith y cyfammod hwnw. Gen. 17. Disail iawn yw ei reswm nad oedd y proselytiaid yn meddiannu y wlad, eithr breintiau eglwysig yn unig. Pa le yr oeddynt yn cael bwyd a dillad? Gwel yn eglur ei fod yn camsynied yn hyn, tro i Gen. 34. 15—17. a'r 20. 21, 23. lle y gweli gyfraith proselytiaeth. Medd Hemor a Sichem ei fab, Os enwaedir ni, byddwn yn un bobl a hwynt,—eu merched hwynt, a'u hanifeiliaid, a'u cyfoeth hwynt, a'u holl ysgrubliaid hwynt, eiddom ni a fyddant, nid eu heglwys hwynt yn unig. Gwladwriaeth Israel mae Paul yn galw eglwys Israel. Yr oedd yr holl genedl a'r proselytiaid yn un bobl, a'r holl bobl yn eglwys, a'r holl eglwys yn un wladwriaeth.

Pa fodd y cymmodir hyny â'r hyn a ddywed yr Apostol, "Os enwaedir chwi, ni lesha Crist ddim i chwi," a'u bod yn rhwym i gadw'r holl ddeddf? A ellir dywedyd yr un peth am fedydd? Ac yn yr un Epistol yn dywedyd "Cynifer ag a fedyddiwyd i Grist a wisgasoch Grist." Gal. 5. 2, 3. pen. 3. 27. Mae enwaediad yn cario oddiwrth Grist, ond bedydd sydd arwydd o'i wisgo ef.

Dengys y rhesymau canlynol, mai nid y cyfammod gras oedd cyfammod yr enwaediad.

1. *Yr oedd yr holl gredinwyr*, a'r un gyffredin hawl yn y cyfammod gras; ond yn nghyfammod yr enwaediad yr oedd amryw bethau parotoiadol at ddyfodiad Crist, nad oedd rhan gan bawb o'r duwiolion ynddynt. Yr oruchwiliaeth oll at y genedl Iuddewig, yn eu cadw dan nôd yr enwaediad, a'r waredigaeth o'r Aipht, oeddynt yn perthyn i gyfammod neillduol a'r genedl hòno yn Abraham, eu gwreiddyn hwynt. Achubodd y cyfammod gras rai am ddwy fil o flynyddoedd cyn llunio cyfammod yr enwaediad; yn yr olaf buasai un yn cael ei dori ymaith er bod yn ddyn duwiol, ac a

hawl yn y cyfammod gras, os na phlygai i enwaediad: ïe, yr hwn a aned yn y tŷ i gael ei ladd, os na enwaedid ef, a'r dieithr i gael byw os enwaedid yntef. Gen. 17.12, 13. Nid y cyfammod gras oedd yn gwneud felly.

2. *Pan y gorchymynwyd enwaediad*, pe buasai yn perthyn i'r cyfammod gras, dylasai gael ei osod ar bawb oedd yn perthyn i'r cyfammod hwnw. Ond nid felly y bu: dim ond y gwrrywiaid o hiliogaeth Abraham, a'i *weision*, a'i gaethion. Yr oedd Melchisedec a Sem, a chanddynt hawl ogyfuwch yn y cyfammod gras, eto ni roddwyd enwaediad iddynt—ond i Abraham a'i had yn unig. Ni ddylid galw y cyfammod gras yn gyfammod Abraham; ond yn fendith Abraham, o'r hon y cyfranogodd pawb a ddygwyd i undeb â Christ trwy waith yr Yspryd yn gystal ag yntef.

3. *Bendithion y cyfammod gras a fwynhawyd* heb enwaediad, megis gan Lot ac eraill.

4. *Nid oes un flaenoriaeth ar gyfrif ystlen*, neu ryw, yn y cyfammod gras—nid oes na gwrryw na benyw; canys chwi oll un ydych yn Nghrist Iesu. Gal. 3.28. Mae yn cymeryd i mewn ein holl natur ni: ond ni chymerai enwaediad ond rhan o honi, sef y gwrrywiaid. Mae bedydd yn perthyn i'r benywiaid hefyd.—Hwy a fedyddiwyd yn wŷr a gwragedd.

5. *Nid oedd enwaediad yn llinell wahaniaethol* rhwng y duwiol a'r annuwiol: ond mae bendithion y cyfammod gras, a'r ordinhadau, yn *llinell* rhwng y cyfiawn a'r drygionus—a'r byd a'r eglwys.

6. *Ail-enedigaeth, undeb â Christ, a ffydd*, ydyw y profion sydd yn dangos, ac yn sylfaenu'r hawl yn y cyfammod gras, o'r dechreu hyd y diwedd; ond bod o deulu Abraham, neu yn gaethion iddo, ac yn broselytiaid, oedd yn egluro hawl i gyfammod yr enwaediad; ond Job neu Elihu, heb ddyfod yn Iuddew trwy broselytiaeth, ni chawsai ddim rhan yn etifeddiaeth cyfammod yr enwaediad. Yn eglwys y Jerusalem isod mae aelodaeth yn y ddau gyfammod, ar ddwy

wahanol sylfaen, perthynas naturiol ac un ysprydol.

7. *Enwaediad a barhäodd fel nôd gwahaniaeth* cenedl Abraham, trwy enedigaeth â phroselytiaeth, o'r rhai yr oedd Crist i hanu; yna dilewyd ef, y'nghyd a'r holl ganolfur o ddefodau gwahaniaethol y genedl Iuddewig, ac oll yn deilio o'r cyfammod neillduol âg Abraham, arwydd yr hwn oedd enwaediad yn y cnawd.

8. *Yr Efengyl sydd weinidogaethiad ysprydol, y cyfammod gras*, a pherthynas ac undeb ysprydol â Christ, pen y cyfammod, trwy waith ei Yspryd ef, sydd yn rhoddi hawl i fabanod sydd yn meirw i fyned i'r nefoedd, a chymwysder i'w mwynhau hi.* A ffydd

---

* Dywedir fod y Bedyddwyr yn bwrw allan fabanod; ond y gwir yw, nid ydynt yn eu bwrw allan o'r cyfammod gras, cynnwysedig yn yr addewid wreiddiol i Abraham, mwy nag y bwriwyd hwy allan o Abel hyd Abraham. Gen. 72. 3. Gal. 3. 14. 17. eithr o gyfammod yr enwaediad yn unig, o herwydd ei ddiddymu ef. Mae y babanod sydd yn perthyn i'r cyfammod gras i'w dosparthu yn ddwy rês. Y rhês gyntaf yw'r holl fabanod sydd yn meirw yn eu babandod—achubir hwynt trwy eu perthynas â Christ, trwy waith ei Yspryd, yn ol etholedigaeth gras, ac nid o herwydd eu perthynas â'u rhïeni. Yr ail rês yw y babanod etholedig sydd yn tyfu i fynu mewn oedran, y rhai a fendithir yn Nghrist, pen y cyfammod, a gelwir hwy i arddel Crist. Nid ynt yn eu bedyddio, mae'n wir, am nad oes gorchymyn Duw dros hyny, hyd oni ymddangoso arwyddion credadwy eu bod mewn undeb â Christ, pen y cyfammod gras: o blegid ynddo ef y bendithir holl deuluoedd y ddaear, yn y nef ac ar y ddaear—ac nid y naill ddyn yn bendithio y llall. Ni ddylem ychwanegu at air Duw, na dilyn gorchymynion dynion.

Mae dau beth yn yr efengyl yn dal perthynas â dynion. Yn 1, Gras pen-arglwyddiaethol yn achub, trwy Grist, fabanod a dynion oedranol. Mae babanod yn wrthddrychau y gras hwn. Yn 2, Llywodraeth foesol Duw, ag sydd yn gosod dynion mewn cyflwr o atebolrwydd am eu hymddygiad tu ag at yr efengyl. Mae dau beth yn anhepgorol angenrheidiol i ffurfio cyflwr o atebolrwydd. Yn 1, Gorchymynion ac addewidion o du Duw—2, Talentau, neu synwyrau a chynneddfau dynol o'n tu ninau. Nid yw babanod newydd eu geni yn ddeiliaid y cyfryw atebolrwydd, o herwydd ni chyfeirir y gorcyhmynion atynt, ac nid oes ganddynt synwyrau i'w derbyn. Pa wahaniaeth bynag sydd yn awr rhwng gweinyddiad allanol a thufewnol y cyfammod, nid yw yn gyfryw ag sydd yn derbyn ufudd-dod *cynnrychiolaidd* yn lle ufudd-dod personol; sef, gan eu rhïeni drostynt, megis ag yr oedd dan enwaediad, ar sail perthynas y naill ddyn â'r llall.

yn Nghrist, a derbyniad o'i Yspryd ef, sydd yn rhoi hawl a chymmwysder i'r oedranol i fwynhau bendithion ysprydol. Pob un yn ysgrifenu â'i law—y saint a'r ffyddloniaid yn Nghrist Iesu.

Tad y ffyddloniaid yw Abraham yn y cyfammod gras: hyny yw, nid pen cyfammodol, ond siampl a phatrwn tra enwog yn y ffydd. Gwnaethpwyd yr addewidion yn y cyfammod gras i Grist, fel pen Abraham yn y cyfammod hwnw, yr hwn oedd gwreiddyn Abraham; canys yn Nghrist y mae holl addewidion Duw yn drysoredig; ac undeb a pherthynas âg ef yn y cyfammod a ddygodd Abraham i'r meddiant; a pherthynas ysprydol âg ef yn bersonol sydd raid gael i ddwyn pob un unigol o'n natur ni i feddiant o addewidion y cyfammod gras. *Os eiddo Crist*, yna canlynwyr y patrwn mawr o ffydd a gawd yn Abraham, ac etifeddion o'r iechydwriaeth, fel efe ei hun. Mae'r cwbl a ddywedir am a thros hawl neb mewn bendithion ysprydol, ond trwy undeb â Christ, yn athrawiaeth Iuddewig, ac nid ysgrythyrol; ac yn wrthwynebol i nattur ysprydol yr efengyl. Ac *os dywedir i brofi fod* enwaediad yn perthyn i'r cyfammod gras, o herwydd ei fod yn arwyddo bendithion ysprydol—geill hyny brofi fod holl *drwmlwyth y cyssegr bydol* yr un modd yn perthyn i'r cyfammod gras, ac nid cyfammod Sinai; o herwydd bod y cyfryw ddefodau'n arwyddocau pethau ysprydol, ac yn gysgod o'r pethau nefol. Yr ydym yn dadgan, fel athrawiaeth yn unol â gair Duw, a chadarn, fel y graig—nad all plant bychain broffesu ffydd gydâ chredinwyr ar y ddaear, a mwynhau cymundeb â Duw; nid ydynt chwaith yn cael myned i'r nef heb undeb ysprydol â Christ, trwy ei yspryd ef—ac fod yn gyflawn mor anmhosibl iddynt fwynhau nefoedd tu draw i'r bedd, gyda chredinwyr, ag yw iddynt fwynhau cymundeb â Duw yma, gyda chredinwyr, heb undeb ysprydol â Christ. Yr un peth a raid roddi cymwysder i bawb i fwynhau pethau ysprydol; sef,

undeb â Christ trwy'r Yspryd Glân. Ofer ydyw sôn am aelodaeth ddi-undeb â Christ i neb—cnawdol yw y cyfryw. Os nad yw Duw yn gofyn proffes o ffydd gan fabanod, nid yw chwaith yn ceisio ganddynt ufuddhau i fedydd; ond mae yn gweithio â'i Yspryd yn y rhai a ddygir i'r nef. Trwy uno plant bychain â Christ mae Duw yn eu dwyn i'r nef; a thrwy waith yr un yspryd, dichon eu gosod, yn ei amser, yn aelodau yn nheyrnas ei Fab yn y byd. Dim llai nag undeb ysprydol â Christ; nid yw ond lledrith a disylwedd, ag sydd yn gadael y dyn, o bob oedran, mewn cyflwr colledig, er cymmaint a ddadleuir drosto.

Gan mai o natur ysprydol yw crefydd Crist, nid oes dim yn fraint i neb, i fabanod nag eraill sydd yn gynnwysedig yn yr *enw* o Gristion yn unig, ac yntef heb Yspryd Crist, nag undeb âg ef. Cyflwyno i Dduw heb undeb â Christ, trwy yr hwn y mae drws i neshau, sydd beth ofergoelus, os nid rhyfygus. Yr holl freintiau sydd i blant proffeswyr i'w derbyn gan eu rhïeni, 1, Sydd mewn addysg yn athrawiaeth yr Arglwydd.—2, Cerydd tadol.—3, Esiamplau daionus.—4, Gweddiau ffyddiog. Eph. 6. 4; yr hyn bethau sydd anfeidrol ragorach na hen iau caethiwed. Os wyt ti, ddarllenydd, yn canfod fel yr ydym ni, yr wyt yn gweled fod colofn fawr bedydd plant gwedi syrthio yn deg, plygu, a thori, a phydru, pan y profwyd fod Abraham yn y cyfammod gras, ac wedi ei gyfiawnhau, 24 o flynyddau cyn bod cyfammod yr enwaediad mewn bodoldeb. Act. 7. 8. Ac mai nid efe na neb rhïeni eraill sydd ben yn y cyfammod gras.

1. Am *ddistawrwydd yr Iuddewon* y'nghylch bedydd plant. Digon yw dywedyd mai tlawd a gwanaidd ydyw achos bedydd babanod, pan mae yn rhaid ymorol am y fath golofn a hon i'w gynnal. Lleferydd Crist, ac nid distawrwydd Iuddew na chenedl ddyn, yw rheol bedydd y Testament newydd, a sail ffydd yr eglwys. Mae distawrwydd y Bibl am fedydd plant

yn profi yn eglur yn ei erbyn, yn gystal a distawrwydd Duw am lwyth Juda i fod yn yr offeiriadaeth yn profi nad oedd hyny yn perthyn iddo. Heb. 7. 14.

2. *O barthed llais Crist* y'nghylch plant. Marc 9. 37. pen. 10. 13, 14. Yn mha ystyr bynnag mae teyrnas nefoedd yn perthyn iddynt, nid trwy rinwedd bedydd y mae hyny yn cael ei ddadgan; canys ni fedyddiodd Crist mo honynt hwy, na gorchymyn i neb arall wneud, na sôn am fedydd yn eu parthed hwynt. Geill plant y Bedyddwyr, a holl blant gwrandawyr yr efengyl, gan hyny, feddiannu teyrnas nef yn yr ystyr y mae Crist yn ei grybwyll: canys undeb âg ef, ac nid â'u rhïeni, ydyw y sylfaen yr hon a amlygir yn y *bendithiad* o honynt ganddo, ac nid trwy eu bedyddio. Yn ol ystyr oleu geiriau Crist, mae teyrnas nefoedd yn eiddo plant heb fod trwy gyfryngiad eu bedydd, er bod eraill yn dywedyd mai fel anifeiliaid y maent, cyn eu bedyddio! Mae Crist yn derbyn plant, ond nid trwy fedyddio, eithr trwy fendithio. Mae y Bedyddwyr yn ei ddilyn ef yma.

3. *Commissiwn Crist i'w Apostolion.* Math. 28. 19. Marc 16. 15, 16. Mae tri pheth yn y *commissiwn,*— 1, *Dysgu* trwy bregethiad yr efengyl.—2. A *bedyddio* y sawl a gredant.—3. A'u *dysgu* a'u hyfforddi fel aelodau eglwysig. Yn ol esponiad Powel ar y *commissiwn,* dylasai yr Apostolion, gwedi myned i Rufain, a Chorinth, ddechreu bedyddio y Paganiaid, yn rhïeni a phlant, ac wedi hyny eu dysgu. Gwna ef fedyddio yn beth cyntaf yn nghrefydd Crist; heb ystyried fod ymddygiad yr Apostolion, y rhai oeddynt yn deall y *commissiwn* yn dda, yn dangos yn benderfynol i'r gwrthwyneb. Pa un ai bedyddio a wnaeth Pedr yn gyntaf yn nhŷ Cornelius, ac ar ddydd y Pentecost, ai ynte pregethu: os pregethu, y canlyniad yw fod T. P. wedi gwyrdroi y *commissiwn.*

Dywedant weithiau nad yw babanod yn cael eu golygu yn y fath eiriau, *credwch, edifarhewch, dychwel-*

*wch.* O'r goreu: ond pa fodd y maent yn cael eu golygu mewn rhan arall o'r un *commissiwn*, pan y sonir am fedydd ynddo.

4. Act. 2. 39. *I chwi mae'r addewid*, ac i'ch plant, ac i bawb yn mhell, cynifer ag a alwo yr Arglwydd ein Duw ni ato. Pe buasai y geiriau yn rhedeg fel hyn, buasent yn rhoi rhyw sail i fedyddio babanod—I chwi y mae y bedydd, ac i'ch plant, fel yr oedd yr enwaediad, o herwydd eu perthynas â chwi. Ond fel arall y llefarwyd y geiriau, I chwi mae'r addewid o iachawdwriaeth, ac o ddoniau yr Yspryd Glân, ac i'ch plant hefyd, trwy eu dwyn i undeb â Christ, fel chwithau. Cynifer a alwo ein Duw ni ato, sef i undeb â Christ. Nid oes un addewid yn y cyfammod gras, i neb o herwydd eu perthynas â'u rhïeni; ond, os eiddo Crist ydych, yna etifeddion. Ond yn nghyfammod yr enwaediad yr oedd perthynas â rhïeni yn rhoi hawl i enwaediad:—ond nid felly yn y cyfammod gras.

5. 1 Cor. 7. 14. *Y gwr di gred a sancteiddir*, a'r wraig ddi gred a sancteiddir drwy y gwr. Oddiwrth yr adnod hon, nid yn unig mae y plant yn sanctaidd, ac yn aelodau eglwysig, o herwydd eu perthynas â'u rhïeni, eithr hefyd y *gwr digred* yn sanctaidd, o herwydd ei undeb â gwraig yn credu, ac nid o herwydd ei undeb â Christ —perthynas â'r hwn yn unig sydd yn rhoddi hawl i aelodaeth eglwysig. Nid oedd yr Apostolion yn derbyn *gwyr digred* yn aelodau, o herwydd eu hundeb priodasol â gwragedd crediniol, yr hyn a fuasent yn ei wneuthur pe b'ai T. P. yn iawn esponio y lle. Ond yr oeddynt yn ystyried y cyfryw briodasau yn gyfreithlawn, a'r plant yn gyfreithlawn,* ac nid yn *fastard-*

* Pe sancteiddrwydd egwyddorol a olygid yma, diau y byddai y gwr digred wedi ei sancteiddio trwy y wraig, a chymmaint o hawl ganddo i aelodaeth eglwysig a'r credadyn ei hun: ond gan na ellir cyfranogi sancteiddrwydd egwyddorol trwy rinwedd perthynas naturiol, a bod trefn aelodaeth yr hen oruchwiliaeth wedi ei newid, nid oes neb yn dwyn perthynas â theyrnas Crist heb arwyddion creadur newydd.

*iaid;* â'r hyn y cytuna yBedyddwyr, a llawer o rai eraill.

6. Am *fedyddio teuluoedd.* Colofn wan yw hon o dan fedydd plant, o herwydd mai ar debygoliaeth fod yno blant bychain yr adeiledir yma, a thebygoliaeth yn erbyn prawf: ond gallasai nad oedd yno neb. Addefir hyny. Sonir, nid yn unig am *fedydd* ceidwad y carchar, ond hefyd iddo ef *gredu,* efe a'i *holl deulu;* ac am y ddau deulu arall, Act. 16. 40. 1 Cor. 16. 15. dywedir pethau ag sydd yn gyfaddasol i ddangos mai undeb a pherthynas â Christ, pen y cyfammod, oedd yn sail i'w hawl i fedydd, ac nid eu perthynas â'u gilydd. Act. 16. 34. Gwedi ei fedyddio allan yn rhyw le, a dyfod yn ol i'r tŷ, efe a fu lawen, &c. Colofn wan ydyw tebygoliaeth yn lle Gair Duw.

7. *O barthed Hanesyddiaeth.* Nid ydym ni yn rhoi pwys nag yn adeiladu ein ffydd ar ddim a wnaethpwyd, a arferwyd, ac a gredwyd, mewn neb rhyw oesoedd ar ol yr Apostolion. Yr ydym yn sefyll ar dir y Testament newydd: yr hyn a draddododd Crist a'i Apostolion, trwy yr Yspryd Glân—yr hyn a gredasant hwy, ac a arferasant, yw ein rheol ni—At y gair ac at y dystiolaeth. Ond sylwa eraill ar y rhan hyn o'r ddadl.

Gwedi dangos, ddarllenydd, mai perthynas â Christ, ac nid â rhïeni, sydd erioed yn rhoi hawl yn y cyfammod gras, dyma grynodeb y ddadl rhyngom: dadganant hwy mai perthynas â rhïeni sydd yn rhoi hawl i fedydd, ninau a ddadleuwn mai perthynas â Christ, pen y cyfammod, sydd yn rhoi hawl yn y cyfammod gras, *yn y nef, ac ar y ddaear;* canys mae holl addewidion Duw ynddo ef. Yr ydym ni yn canmol, dyrchafu, a mawrhau perthynas â Christ ar y pen hwn, a hwythau yn dyrchafu perthynas â rhïeni proffesol, gan y rhai nid oes olew i neb, ond hwy eu hunain. Hyderaf ein bod gwedi profi mai perthynas ysprydol â Christ sydd yn rhoddi hawl i iachawdwriaeth, ac ordinhadau yn y cyfammod newydd. Pa gyfammod oedd yn achub babanod, ac eraill, o Adda hyd wneuthuriad cyfammod yr enwaediad âg Abraham?

III. Bedydd a ordeiniodd Crist sydd yn perthyn i oruchwyliaeth yr efengyl; yr hon sydd yn un ysprydol, heb fod o'r byd hwn. Yr oedd yr eglwys dan gyfammod yr enwaediad o'r byd hwn, ac yn rhyfelwyr. Mae yn perthyn i'r oruchwyliaeth hon,—1, Brynedigaeth trwy waed Crist, oddiwrth bechod, angeu, a'r bedd.—2, *Cyssegr* nefol, nid un *bydol.*—3, Aberth dwyfol.—4, Allor ysprydol.—5, Trugareddfa ysprydol.—6, Cymmod ysprydol.—7, Archoffeiriad nefol.—8, Etifeddiaeth nefol. Pethau cysgodol oedd dan gyfammod yr enwaediad; ond pethau nefol ydyw pethau yr efengyl. *Breintiau o natur nefol,* fel na all neb o'n natur ni eu mwynhau, heb gael eu geni o Dduw, na mawr na bach. Mae dadleu dros freintiau babanod newydd eu geni, mewn cyfammod ag sydd a'i freintiau yn ysprydol, yn yr eglwys filwrus na'r un orfoleddus, heb dderbyn perthynas â Christ trwy ei Yspryd ef, nid yn unig yn anysgrythyrol gydâ golwg ar y cyfammod newydd, eithr hefyd yn anmhosibl ynddo ei hun; o herwydd ni ddichon neb, na bach na mawr, yn ei gyflwr anianol, ddeall na mwynhau pethau yr Yspryd. Dadleu dros bethau anmhosibl yr ydys yn achos plant heb waith yr Yspryd yn rhoi gallu i fwynhau pethau cyfammod ysprydol, trwy undeb â'i ben ef, er iddynt fod dan enwaediad gynt, trwy eu perthynas â'u rhïeni; yr hwn oedd yn cynnwys pethau cysgodol, amserol, ac nid ysprydol a nefol.

2. *Deiliaid y cyfammod newydd,* yn ei ordinhadau ar y ddaear, a'i fendithion daionus, ydyw y rhai a *unir â Christ,* trwy yr Yspryd, ac a enir o Dduw, ac a adwaenant yr Arglwydd, o'r mwyaf hyd y lleiaf. Eglwys gynnwysedig o rai heb adnabod yr Arglwydd, oedd dan gyfammod yr enwaediad. Rhyfedd bod neb am gynnal y fath eglwysi. Ffydd yn Nghrist sydd yn rhoi hawl yn yr efengyl, a'i bendithion yma—undeb dirgelaidd, trwy'r Yspryd, â Christ, sydd yn rhoi hawl

a chymmwysder i fabanod i fwynhau y nefoedd yr ochr draw, y rhai sydd yn meirw yn eu babandod.

3. *Mae'r efengyl yn cael ei darlunio* hefyd fel yn foddion i gasglu y'nghyd o blith Iuddewon a chenedloedd, holl weledig ddeiliaid y cyfammod newydd. Mae y cwbl yn ol *commissiwn* Crist, fel cadwyn harddwych, a'r pumed dolen ynddi yw bedydd. Yr hyn sydd yn amlwg yn y *commissiwn,* ac yn arferiad yr Apostolion yn ol y *commissiwn,*—1. *Pregethwch* yr Efengyl.—2. *Yr addysg* o'r athrawiaeth drwy bregethu.—3. *Credu* yr hyn a ddysgwyd iddo.—4. Cyffesu, a phroffesu yr hyn a gredodd. Os wyt yn credu, efe a ellir dy fedyddio; yr wyf yn credu.—5. *Bedyddio* yr hwn a glywodd yr efengyl, ac a ddysgodd, ac a gredodd, ac a'i proffesodd. Mae bedydd, yn ol trefn yr efengyl, yn cyfarfod â dyn mewn undeb â Christ, ac mewn cyflwr cadwedig. Ond y peth cyntaf ydyw bedydd *plant,* yn ol trefn enwaediad gynt, yn lle y pumed peth. Dyma ŵyriad mawr oddiwrth *blan* Crist. Yr addewid sydd yn siriol wenu ar ein plant newydd eu geni yw, fod Crist i gael ei wobr o honynt mewn rhan, ac wedi addaw ymweled â hwynt, a'u codi yn lle eu tadau ar y ddaear, yn yr eglwys, trwy roddi ei Ysbryd iddynt, a chalon newydd i fwynhau cymundeb ag ef yn ei ordinhadau; ac uno âg ef ei hun, trwy *waith dirgelaidd ei Ysbryd,* y rhai sydd yn meirw yn y bru, ac newydd eu geni, cyn dyfod i oedran a synwyr.

Sail i weddio a hyderu am iachawdwriaeth ein plant yw, y gall ein Duw ni eu galw i berthynas â'i Fab, a'u hachub trwyddo ef; ac nid eu bedyddio, o herwydd eu perthynas â'u rhïeni, gan wneuthur eu rhïeni yn *benau cyfammodol drostynt,* yn lle Crist. A hyn, yn wir yw sail hyder a sylfaen gweddiau yr Anymddibyniaid, a'r Methodistiaid, yn mhob lle ond wrth y llestr bedydd, yn gymhwys fel y Bedyddwyr.

4. *Gweinyddiad bedyad ar broffes o ffydd,* yn yr holl hanes a gewn ni yn y Testament newydd. Mae wedi

ei gyssylltu, nid â gwragedd yn gorwedd i mewn, a geni i'r byd hwn, fel y mae bedydd plant yn ddieithr yn awr. Yn y *tri yspaid amser* y cawn hanes gweini bedydd, *gan Ioan,*—*gan Grist,* cyn marw,—a chan yr *Apostolion,* wrth gyflawni y *commissiwn;* gwedi adgyfodiad Crist, cyssylltir y gweinyddiad o hono â *ffydd,* —*argyhoeddiad*—gwaeddi beth i'w wneud i fod yn *gadwedig,* a pha beth i'w wneud mewn ufudd-dod a phroffes o ffydd—ac âg edifeirwch, ac â llawenydd yn Nuw. Math. 3. 6, 7, 11, 13, 14, 16. Marc 1. 4, 5, 8, 9. Luc 3. 3, 7. Ioan 1. 25, 26. a 4. 1, 2. Act. 9. 18. a 10. 37, 47, 48. Gal. 3. 27.

5. *Darlunir bedydd, yn mhob lle, fel ufudd-dod personol,* ac o ddewisiad y dyn ei hun; ac nid fel enwaediad a bedydd plant, o ddewisiad y rhïeni, ac yn ufudd-dod iddynt hwy, ac nid yn ufudd-dod y plentyn. Ufuddhaodd y tair mil o gariad at Grist, a gogoneddasant ef. Act. 2. Col. 2. 12. Cyd gladdu, cyd godi gyda Christ. 1 Pedr 3. 21. Paul yr Apostol, ac un o had y ffyddloniaid, ac wedi ei enwaedu yr wythfed dydd, a ufuddhaodd i fedydd o ddewisiad. Act. 9. 18.

6. *Ni ofynent i'r bedyddiedig o ba rïeni yr oedd,* ac a oedd perthynas rhyngddo â rhïeni duwiol; ond yr ymofyniad gyda hwy oedd, nid am y pethau uchod, ond, *A wyt yn credu yn Mab Duw?* Act. 9. 18. a 8. 36, 37. Perthynas â Christ, pen y cyfammod, oedd yn rhoi hawl a chymmwysder i fedydd, yn ol y Testament newydd. Gan y Bedyddwyr, fel yr ymddengys, y mae hen fedydd y Testament newydd yn aros; a'r dirmyg a ddisgyn i'w rhan wrth ei arfer sydd ddirmyg Crist, yr hwn sydd werthfawr.

7. *Commissiwn Crist sydd yn rhoi cyflawn awdurdod,* Math. 28. 19. Ewch a dysgwch yr holl genedloedd, gan eu bedyddio. Ynddo y cawn awdurdod am fedyddio pawb a broffesant eu ffydd yn Nghrist, pen y cyfammod—a'r dull y cyflawnodd yr Apostolion ef, wrth ei weinyddu, ydyw prif reol y Bedyddwyr, a

*phen clwm eu hawdurdod* hwynt. Nid ydym ni gwedi gweled dim prawf digonol mai nid bedydd efengylaidd ydoedd bedydd Ioan; canys y gyfraith a'r Prophwydi oedd hyd Ioan. *Terfyn Iuddewaeth* oedd, a *dechreuad Cristionogrwydd*, medd Witsius. "Yr oedd rhwng y ddwy oruchwyliaeth; ond yr oedd ei fedydd yn perthyn i'r Brenin, y MESSIAH oedd yn dyfod ar ei ol ef, ac nid i Iuddewaeth ydoedd o'i flaen." Digon i ni ydyw hyn, a'r hyn a ddywed yr un awdwr. "Yr oedd ei fedydd yn derbyn i deyrnas nef, ac nid i Iuddewaeth." Cytuna â bedydd y *commissiwn*, medd Witsius, 1, Yr oedd y ddau o'r nef.—2, Sylfaenedig ar orchymyn Duw. Ioan 1. 33. Luc 7. 30.—3, Yn mhob un o honynt yr oedd suddo, neu drochi mewn dwfr.—4, Yr oedd pob un yn galw am ffydd a chyffes o'r MESSIAH, pen y cyfammod newydd—ac nid bod ganddynt Abraham yn dad. Math. 3. Nid ydym ni am ddadleu dros ychwaneg ar y pen hwn; canys y mae siampl Crist i'w dilyn yn medydd Ioan, o herwydd ei fod yn hanfodol yr un a bedydd y *commissiwn*, ac yn perthyn i deyrnas nefoedd, megis y mae siampl Crist i'w dilyn yn y swper sanctaidd, o herwydd mai nid perthyn i Iuddewaeth yr oedd, eithr i deyrnas nefoedd er ei gweinyddu cyn marwolaeth Crist. Mae Crist yn siampl i ni yn y ddwy ordinhâd, canys perthyn i'r un deyrnas yr oeddynt.

8. *Ymddengys i ni fod dadleu dros hawl* rhai babanod yn yr eglwys, ar gyfrif eu perthynas â'u rhïeni, megis pe byddent yn benau cyfammodol iddynt, fel Abraham yn nghyfammod yr enwaediad—ac nid Crist. Os felly, mae iechydwriaeth trwy undeb â rhïeni. Mae y cyfryw bwngc yn groes i'r Testament newydd, ac yn rhoddi darluniad erchyll iawn o gyflwr yr holl fabanod nad oes ganddynt broffeswyr yn dadau neu famau; y rhai, pe b'ai gwir yn medydd plant ar sail perthynas â rhïeni, a gauid allan o'r iachawdwriaeth, a'r etifeddiaeth nefol, fel y cauwyd allan y plant dienwaededig o etifeddiaeth gwlad Canaan. Ond diolch i Dduw, nid felly y

trefnodd ef bethau. Credwn fod yr holl fabanod sydd yn meirw trwy y byd yn cael eu huno â Christ, trwy ei Yspryd ef, i roi hawl a chymmwysder iddynt i fwynhau y nefoedd. Wrth ddadleu hawl plant proffeswyr i iachawdwriaeth ar gyfrif eu perthynas â hwynt, condemnir i gollfarn yr holl fabanod sydd yn meirw heb y cyfryw berthynas Diolchwn mai nid cyfammod yr enwaediad yw y cyfammod gras.

9. Er bod yr Anymddibynwyr a'r Methodistiaid yn dadgan hawl babanod wrth y bedyddfan, ar sail eu perthynas â'u rhïeni; ond cytunant â'r Bedyddwyr yn mhob lle arall—fod yn rhaid cael undeb ysprydol â Christ, neu ail-eni, onidê nad oes iachawdwriaeth. Mae y Bedyddwyr yn sefyll dros yr angenrheidrwydd o undeb â Christ, wrth y bedyddfan yn gystal ag yn y pulpud, yn y gweddiau a'r gymdeithas. Ond maent hwy, bedyddwyr plant, yn gwrthod ac yn gwadu wrth y bedydd-lestr yr hyn a gyd arddelant â ni yn mhob lle arall, sef nad oes iachawdwriaeth heb *gyfnewidiad anian.* Mae yr Anymddibynwyr, a'r Methodistiaid, nid yn unig yn wrthwynebol i *ni,* wrth y bedyddfan, ond i'w hegwyddorion, a'u profiadau, a'u dysgyblaeth eu hunain, yn mhob rhan arall o grefydd. Gwedi y delo y plant yn fawr, darluniant hwy yn bobl y byd, ac yn blant Belial, gan nacau eu merched iddynt mewn priodas, fel pe byddent ddienwaededig.

10. *Nid o eisiau cariad at blant bychain* yr ydym yn gwrthod eu bedyddio hwynt; canys credwn eu bod yn gadwedig—ond nid trwy rinwedd eu perthynas â'u rhïeni y maent yn gadwedig, eithr â Christ. Pe byddai babanod i gael, yn weledig i ni, yr hyn a'u cymmwysai i fwynhau y rhan uchod o deyrnas ysprydol Crist, sef, *cyfnewid eu natur,* trwy Yspryd Crist, ac agor eu *dealldwriaethau,* a'u golchi yn ngwaed Iesu, byddai ganddynt hawl a chymmwysder i fwynhau breintiau ei deyrnas ysprydol ef yma ar y ddaear, a ni a'u derbyniem yn garedigol: o herwydd, swm y ddadl rhyng-

om sydd, yn fyr, yn gynnwysedig yn hyn, fod un blaid yn dal, ac yn dadgan, fod perthynas â rhïeni yn rhoddi hawl yn y cyfammod newydd; a'r blaid arall yn dadgan, gydâ holl rym yr *ysgrythyrau*, a *phrofiadau* yr holl dduwiolion, yn y ddwy blaid, mai perthynas ysprydol â Christ, y *pen cyfammodol*, sydd yn unig yn rhoi hawl a chymmwysder i feddiannu braint yn y cyfammod newydd, yn y nef ac ar y ddaear. Tystiwn nad oes achub heb undeb â Christ. Nid oes dim sancteiddrwydd yn tarddu o berthynas â rhïeni, yn achub neb, ond o berthynas â phen y cyfammod. Rhaid cael perthynas ac undeb â Christ cyn cael cymeriad Cristion. Nid oes Cristion, ond o fewn i ychydig, heb Yspryd Crist ganddo. Cytunir â ni yn y pethau hyn yn mhob lle ond wrth y bedydd-lestr.

Dywedir am danom ni ein bod yn "*wrthwynebwyr babanod*," o herwydd ein bod yn tystio nad oes *lle* diogel iddynt yn noddfa perthynas â'u rhïeni. Nage, meddwn ninneu, nyni sydd fwyaf o dû babanod; canys am eu cael i undeb â Christ yr ydym ni, trwy'r Yspryd Glân; ac yn dadgan na wna llai na hyny y tro i'n hachub ni na hwythau. Dadgan y blaid arall fod undeb â rhïeni yn ddigon; nineu a ddadganwn fod yn rhaid cael undeb â Christ. Dadgan un blaid fod llai nag undeb â Christ, pen y cyfammod yn ddigon; nineu a ddadganwn na wna dim llai y tro. *Os eiddo Crist*, pen y cyfammod, yna etifeddion hefyd. Dadganant hwy ein bod yn foddlon i blant fyned i'r nef—ond yn eu herbyn i ddyfod i'r eglwys isod; taerwn nineu, ar sail gwirionedd, ein bod yn ogymaint ein zêl dros eu cael i'r eglwys ar y ddaear ag i'r un yn y nef, ond iddynt dderbyn yr un cymmwysder yn weledig, sef, undeb ysprydol â'r Cyfryngwr, pen y cyfammod: nid oes dyfod at y Tad, i fach na mawr, ond trwyddo ef.

11. Cyn y gellir ein gwrthwynebu ni yn deg ar y pwngc o fedydd, mae yn rhaid iddynt brofi;

1, Mai Abraham yw pen y cyfammod gras.—2,

Mai perthynas naturiol â rhïeni duwiol sy'n rhoi hawl yn mreintiau y cyfammod gras—ac nid perthynas ysprydol â Christ.——3, A bod ufudd-dod heb ffydd a gobaith yn grefydd dderbyniol dan yr efengyl, pan y mae yr addoliad yn ysprydol.——4, Ac mai sancteiddrwydd yn tarddu o berthynas â thâd neu fam naturiol sydd ddigonol i wneud aelod eglwys mewn teyrnas ysprydol—ac nid sancteiddrwydd yn deilliaw oddiwrth Grist, yr hwn sydd mewn undeb â'r rhai a sancteiddir. O'r un y maent oll. Nid oes modd sancteiddio babanod ond o'r un ffynnon hon.

Ond nid hir y pery y grefydd ar sail perthynas â rhïeni, gyda hwy; o herwydd, pan y delont i oedran, hwy a ddangosant yr angenrheidrwydd o grefydd bersonol, ac ni dderbyniant i gymundeb gyda dim llai nag arwyddion o ail-eni, neu undeb ysprydol â Christ: ni edrychant arnynt yn aelodau, gwedi myned yn fawr, gydâ hwynt. Yn hyn croesant gyfammod yr enwaediad, yn gystal ag y croesasant y cyfammod newydd, wrth wneuthur aelodau o honynt ar sail eu perthynas â'u rhïeni ar y cyntaf, o herwydd na chydnabyddant hwynt yn aelodau dros eu bywyd; canys yr ydoedd cyfammod yr enwaediad yn eu cydnabod felly dros fywyd. Yn hyn ni ddilynir un drefn gyfammodol a roddes Duw i ddynion. Mae yn amlwg nad yw bedydd plant yn dwyn neb i'r nefoedd, o herwydd ni all bedydd o un math achub; tra eglur hefyd ydyw nad yw yn gwneuthur un lles iddynt yma, yn y byd hwn, o herwydd, y mae ei rinwedd yn darfod pan y delont i synwyr ac oedran: dichon iddo fod yn fágl i lawer, i'w cadw rhag anrhydeddu Crist yn ei *gommissiwn* âg ufudd-dod personol, a hyny gwedi iddynt gael eu dwyn i undeb personol ag ef; ar rhan hòno o ogoniant Crist sydd yn grogedig wrth fedydd, fe'i hyspeilir o hono yn y modd hwnw.

12. *Neillduolrwydd y Bedyddwyr o ran deiliaid bedydd* sydd yn hyn o beth, sef ceisio proffes o ffydd

yn mhen y cyfammod. Mae y rhan amlaf o fedyddwyr plant eu hunain, yn gogwyddo i'r ochr hon atynt hwy, trwy geisio tadau a mamau bedydd i broffesu ffydd drostynt. Ac eraill a sylfaenant fedydd ar *anneongledig* berthynas â rhïeni naturiol. Eraill a ddaliant *fedyddiawl ail-enedigaeth*; ond ail-eni heb ddychweliad—sancteiddrwydd heb Grist, a duwioldeb, sydd bren heb ffrwyth—môr heb ddwfr—cwmwl heb wlaw—ac addewid heb fywyd. Er i ni gytuno â'r blaid arall am yr angenrheidrwydd o ail-enedigaeth yn mhob lle ond gyda'r llestr bedydd: yno mae un blaid yn rhoi i fynu yr angenrheidrwydd, a'r Bedyddwyr yn sefyll drosto yn mhob rhan o grefydd, fel gwirionedd sylfaenol, pwysig, ac efangylaidd.

Y fath olwg *wyneb-las, du, tywyll,* sydd gan fedydd plant, ar sail perthynas â rhïeni duwiol, pan y mae yn troi ei gefn mor ddidrugaredd ar blant y dibroffes, a'r holl rai anfedyddiedig, gan eu gadael gyd ag "anifeiliaid y maes," heb sylw Duw, heb daflu un o adenydd addewidion yr efengyl drostynt mwy na phe baent ond *anifeiliaid di-eneidiol.* Diolch i Dduw mai nid dyma yr olwg sydd gan drugaredd rad ar fabanod bach y byd, y rhai nid oes ganddynt rïeni proffesol *i'w hachub trwy eu perthynas naturiol â hwynt*; y mae pen y cyfammod gras yn abl i'w dwyn hwynt oll sydd yn meirw yn eu babandod, i *undeb âg ef ei hun,* yn yr hwn y mae bywyd i fawrion a bychain. Fel hyn, yn ddieithr iawn, gwnant Gristionogion heb undeb â Christ o'u plant eu hunain, a darluniant blant y Bedyddwyr, a phlant eu cymydogion dibroffes, fel anifeiliaid y maes. Mae rhyw greulondeb mawr yn y pwngc, annghydweddol iawn â natur yr efengyl, ac â Christ, yr hwn a ddywedodd, mai eiddo plant bychain oedd teyrnas nefoedd, a hyny *heb eu bedyddio,* na sôn un sill am y cyfryw beth. Ond ni ddadleuant dros rinwedd rhïeni yn lle Crist, mewn un rhan o'u crefydd, ond wrth fedyddio plant; mae hyny yn profi ei fod yn annghyt-

tunol â phob rhan arall o'u crefydd. Ai i uffern yr aeth y babanod o Adda hyd Abraham, cyn llunio cyfammod yr enwaedïad? Gorphenwn drafod deiliaid bedydd yn fuan. Tebygol fod yr hyn a ddywedwyd wedi profi yn eithaf goleu, na ddaeth bedydd yn lle enwaediad.

1. O herwydd mai cyfammod yr enwaediad a roes awdurdod i enwaediad, a bedydd sydd ordinhad y cyfammod newydd. Yr oedd Abraham 24 blynedd yn y cyfammod gras cyn llunio cyfammod yr enwaediad; cymerodd yr enwaediad yn insel cyfiawnder y ffydd oedd wedi ei gael mewn cyfammod arall 24 o flynyddau cyn hyny. Nid oedd ei waith yn ei gymeryd fel cadarnhad i'w ffydd ddim yn profi fod iau caethiwed yn perthyn i'r cyfammod gras, eithr i gyfammod yr enwaediad. Yn y cyffelyb fodd yr oedd Moses yn y cyfammod gras, cyn derbyn cyfammod Sinai, ac nid oedd ei waith yn derbyn cyfammod Sinai yn profi mai y cyfammod gras ydoedd hwnw, yr hwn, er hyny, yn ddïau, a fawr gadarnhaodd ei ffydd yn y Messïah, fel y gwna pob ufudd-dod ffydd i Dduw

2. Nid yr un cymmwysder oedd yn ofynol at enwaediad a bedydd; bod yn wrryw o genedl Abraham, neu broselyt, oedd yn ofynol at enwaediad—ond bod mewn perthynas â Christ, ac o blant Duw, trwy ail-eni, sydd yn rhoi hawl a chymmwysder i fedydd Yr oedd Nicodemus, a holl senedd yr Iuddewon, yn aelodau yn eglwys y Jerusalem isod, o herwydd eu perthynas âg Abraham, a'u plant â hwythau; ond ni allent fyned i mewn i eglwys y Jerusalem uchod, yr hon yw ein mam ni oll, heb ail-eni, neu berthynas â Christ. Yn yr ystyr hon ni arhosodd yr eglwys yn un. Ioan 3.

3. Pe buasai bedydd gwedi dyfod yn lle'r enwaediad, a'r ddau o'r un ystyr, ac yn perthyn i'r un cyfammod, fel y dadleuir, ni buasai gymmwys nag angenrheidiol i'r un bobl fyned danynt. Aeth Crist dan enwaediad yn *wyth niwrnod oed*, plygodd wedi'n i fedydd o gylch

*deg ar hugain oed*. Math. 3. 6. Luc 3. 12. Y tair mil hefyd oeddynt oll wedi eu henwaedu yn blant, a bedyddiwyd hwynt gwedi hyny. Act. 2. 38. Paul hefyd a fedyddiwyd, mewn oedran, gwedi ei enwaedu yr 8fed dydd. Act 9. 18. Profa hyn mai dwy ordinhad wahanol ydynt. Phil. 3. Petai gwir fod enwaediad yr un peth a bedydd, buasai hyn yn ail-fedyddio teg.

4. Yr oedd enwaediad yn perthyn yn unig i'r gwrrywiaid, ond bedydd yn perthyn i'r ddau ryw, gwyr a gwragedd. Act. 8. 12, 13, 38. Achubwyd miloedd o rai oedranol, ac o blant, o Adda hyd Abraham, cyn bod cyfammod yr enwaediad mewn bodoldeb.

10. Ychwanegwn ychydig ar y dull o fedyddio.—Mae rhan o'r gwahaniaeth rhwng y Bedyddwyr a'r Anymddibynwyr a'r Methodistiaid ar y pen hwn eto. Dadgan un blaid y gwna taenellu dwfr y tro i fedyddio; Y Bedyddwyr o'r ochr arall a safant yn gadarn mai trwy *soddi*, neu *drochi* mewn dwfr y gellir yn gyfreithlawn weinyddu bedydd. Rhai'n proffesu'n gredadwy eu hundeb trwy ffydd â Christ ydyw y deiliaid—a throchi ydyw y dull yn ol eu barn hwy: o herwydd paham golygant fod mor anweddus eu galw hwy yn ail fedyddwyr ag a fyddai eu galw yn *ail drochwyr*, yr hyn nid yw wirionedd. Trochi yw bedydd, yn ol eu barn sefydlog hwy, wrth yr hon y glynant, er mwyn gogoniant Iesu, yn wyneb pob enwau drwg: a hwy yw yr unig drochwyr sydd yn y byd, y'nghyd ag eglwys Groeg: ac o ganlyniad yn ol eu goleuni hwy ar air Duw, y trochwyr yw'r unig fedyddwyr sydd yn y byd. Gan hyny nid allant fod, yn ol eu barn hwy, yn ail fedyddwyr, oni ba'i eu bod yn ail drochwyr—nag eraill yn Fedyddwyr oni b'ai eu bod yn drochwyr. Ni lynai y Bedyddwyr wrth y cyfryw ddull o barch i neb ond i Iesu Grist, er mwyn cyflawni ei ewyllys yn ei ordinhad, a'i gyffesu o flaen dynion. Mae yn ddrud i'n cnawd ni—ond nid yn rhy ddrud genym i'w gyflawni er mwyn Iesu.

Y rhesymau ysgrythyrol a ganlyn sydd yn cadarnhau ein barn ni mai *trochi* yw yr iawn ddull o fedyddio.

1. O herwydd mai dau air yw *taenellu* a *bedyddio*, ac yn arwyddo dwy wahanol weithred. Yr oedd y weithred o drochi yr issop yn ngwaed yr aderyn marw gan Aaron, yn wahanol i'w daenellu saith waith, wedi hyny, ar yr hwn a lanhaed. Lef. 14. 6, 7. Nid yw y gair gwreiddiol sydd am *daenellu* ddim unwaith yn cael ei arfer am weinyddiad bedydd yn yr holl Destament newydd; o ganlyniad nid taenellu yw dull y Bibl o fedyddio.

2. O herwydd mai ystyr flaenaf a phriodol y gair *baptizo* yw *trochi*, fel y deonglir i ni mewn Geirlyfrau beirniaid dysgedig, y rhai nid ydynt o'n plaid ni; o herwydd paham, gellir tybied eu bod hwy yn ddi ragfarn. Er eu bod hwy, yr ydym yn addef gwedi'n, yn dadgan y gwna taenelliad ateb y diben mewn bedydd—ond nid ydym yn cael ein hargyhoeddi gan eu rhesymau dros hyny. Parkhurst, offeiriad dysgedig, yn ei Lex. Groeg, a ddywed fel hyn, fod "*baptizo* yn tarddu oddiwrth *bapto*, sef *trochi*, *suddo* neu *soddi*." Yr un gair, sef *babtizo*, a arferir am fedydd yn y Testament newydd, ag sy'n cael ei gyfieithu, yn 2 Bren. 5. 14. A Naaman a ymdrochodd, neu a ymfedyddiodd saith waith yn afon yr Iorddonen. Nid taenellu oedd hyn—nid ar lan, ac wrth ymyl yr Iorddonen, ond ynddi. Yr un gair sef *baptizo*, bedyddio, a ddefnyddir am fedydd Crist ac am *drochi* Naaman yn yr un Iorddonen; ac os cyfieithodd y cyfieithwyr y gair *baptizo* yn iawn, yn drochiad o barthed i Naaman, dylasai gael ei gyfieithu felly o barthed bedydd Crist. Sylwa yr un gwr dysgedig fod y gair *baptisomai*, sef y gair a arferir am fedydd yn y Testament newydd, yn ei wahanol dreigladau, ac am drochiad Naaman, fel y sylwyd; ac fod y gair Hebraeg *tabal*, yr hwn sydd yn ateb iddo, yn cael ei gyfieithu yn y lleoedd canlynol *trochi*, neu *fedyddio* siaced Joseph mewn gwaed, Gen. 31. 5. gwlychu, neu fed-

ydd̸io traed yr offeiriad yn nghŵr yr Iorddonen. Jos. 3. 15. Jonathan yn gwlychu ei wialen yn y mel. 1. Sam. 14. 27. Job yn cael ei drochi yn y pwll, neu ei fedyddio, yn ol ystyr y gair. Job 9. 3. Ruth yn gwlychu (bedyddio) y tamaid yn y finegr, a Nabucodonozor yn cael ei wlychu â gwlith y nefoedd. Dan. 4. 33. Yr oedd yn gorwedd fel y manna rhwng dwy gaenen o wlith. Yr ydym ni yn deall y gair bedydd yn yr ystyr ag y cyfieithwyd ef am drochiad Naaman, ond ni all y blaid arall ddangos fod y gair *rantizo*, (taenellu) yn un lle yn y Bibl yn cael ei gyfieithu yn fedyddio.

3. Y lleoedd oeddynt yn ddewis at weinyddu bedydd, sydd yn dangos yn eglur i'n golwg ni, mai trochi oedd y dull—sef yr Iorddonen, yr afon a holltwyd o flaen Arch Duw gynt; ac yn Ainon, gerllaw Salim, canys dyfroedd lawer oedd yno. Dywedir felly. Gwel Math. 3. 6, 7, 11, 13, 14, 16. Marc 1, 4, 5, 8, 9. Luc 3. 3, 7, 12, 16, 21. Ioan 1. 25, 26, 28, 31, 33. a 3. 23. Nid yw y taenellwyr byth yn ymgyrchu i'r fath leoedd i fedyddio—prawf hyny eu bod wedi colli yr hen ddull ysgrythyrol. Ond y Bedyddwyr a ymgyrchant yn barhaus at ddigon o ddyfroedd i drochi—dadgan hyny eu bod yn dilyn hen ddull bedydd, yn ol siampl Crist a'i Apostolion, ac yn glynu wrtho o barch ac ufudd-dod i Ben yr eglwys: Dyry hyny gysur i ni pan welom ef.

4. Bu trochi mewn arferiad gyffredin, fel dull o fedyddio, ryw ychydig mwy na mil o flynyddoedd wedi ei sefydlu gan Grist; cydnebydd Witsius hyny. Ond yn unig y rhai a fedyddid ar eu gwely cystudd, byddai y rhei'ny yn cael eu gwlychu drostynt, eto amheuid gan lawer fod eu bedydd yn iawn. Cydnebydd y Dr. Wall fod taenelliad wedi dyfod oddiwrth Babyddiaeth, Hist. 477, o herwydd mai yn yr eglwys Ladingaidd y tyciodd i gael derbyniad, lle yr oedd awdurdod y Pab yn gadarn. Gwel Witsius Econ. Goddefiad yw taenellu, yn bresenuol yn Eglwys Loegr;

ond *trochi* yn *ddiesgeulus* ydyw y dull gofynol yn ol trefn yr eglwys hòno. Yn amser Cromwel yn Lloegr, gan gymdeithas o ddysgedigion, ennillwyd taenelliad o un blaid-lais, sef 25 yn erbyn 24.

5. Mae Eglwys Groeg, yr hon ni phlygodd i awdurdod y Pab, yn gyson a diŵyr, a digyfnewid, yn arfer yr hen drefn ysgrythyrol o fedyddio trwy drochiad o ddechreuad Cristionogaeth yn eu mysg. Gellir dysgwyl ar sail resymol eu bod hwy yn deall ystyr y gair *baptizo*, yr hwn sydd yn perthyn i iaith eu mamau, yn well nag eraill. Er maint yw y dadleu yn erbyn y Bedyddwyr am ddull bedydd, ac ystyr y gair; mae hyn o'u tu yn fawr, eu bod yn deall y gair fel y Groegwyr eu hunain. Mae Eglwys Groeg o'n tu ni, os yw Eglwys Rufain yn ein herbyn.

6. Mae y geiriau canlynol yn dangos yn eglur fod yr hen ddull ysgrythyrol o fedyddio wedi ei golli mewn taenellu, Act. 8. 36. *Hwy a ddaethant at ryw ddwfr* (ac nid dwyn llestr a dwfr atynt hwy, fel y gwneir mewn taenelliad) Hwy a aethant i wared ill dau i'r dyfroedd, adn. 38; ni wneir felly mewn taenelliad. Jona fwriwyd i'r môr—bwrw y dyn claf i'r llŷn. Ioan 5. yr un gair a arferir. Gwragedd yn myned i'r bedd, Marc 16. 5, 4. nid i làn y llŷn, nag i làn y bedd. Aeth Crist i fynu o'r dwfr, gwedi ei fedyddio—nid yw yr hwn a daenellir yn mynd i fynu o'r llestr. Mat. 3. 3, 16.

Dywedir nad yw y geiriau *i'r (eis)* ac *yn (en)* yn arwyddo myned i beth, eithr i ymyl peth. Arferir y geiriau *i'r* ac *yn*, ysgatfydd dros ddwy fil o weithiau o Genesis i'r Dadguddiad, mewn ystyr i fyned *i* beth; megis Pedr yn y cwch yn myned i'r môr—bwrw Jona i'r môr—taflu Babilon i'r môr fel maen melin—a'r bwystfil i'r llŷn tân—cythreuliaid i'r moch, a'r môch i'r môr, ac nid i ymyl y môr—Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd, nid yn ei hymyl—y saint i fywyd tragywyddol, nid i'w ymyl—a'r annuwiol i gospedigaeth dragywyddol, ac nid i'w hymyl—Pan elo dyn i'r mynydd mae

yn myned tu fewn ei derfyn—pan elo y forwyn i'r ffynon mae yn gosod ei llestr ynddi i gyfodi ei lonaid. Ond nid yw baban yn myned i'r llestr bedydd. Mae dadgan nad yw y geiriau *myned i'r dyfroedd* yn arwyddo *myned iddynt*, mor afresymol a phe dadgenid am Aaron yn myned i'r cyssegr—Moses i'r mynydd—Israel i'r babell—dysgyblion i'r cwmwl—y llechau yn yr Arch—a dyn i'r bedd, nad yw yn arwyddo dim rhagor na myned i'w hymyl hwynt. Trwy y fath reol, os cymmwysir at bethau eraill, gellir dyrysu yr holl Fibl am y pethau mwyaf pwysig. Profir wrth y fath reol nad yw y gŵr goludog ddim yn uffern, ond yn ei hymyl—ac nad yw'n cael ei boeni yn y fflam, eithr yn ei hymyl, ïe, a chymaint rhyngddo a hi ag sydd rhwng y baban a'r bedydd-lestr—ac na bu Jona dridiau yn mol y morfil, eithr yn ei ymyl—na Christ y'nghalon y ddaear, eithr yn ei hymyl—na'r tri llangc yn y ffwrn dân, eithr yn ei hymyl—na Daniel yn ffau y llewod, eithr yn ei hymyl—nag Israel yn Mabilon, eithr yn ei hymyl—na'r fwyall yn y dwfr, eithr yn ei ymyl—na'r tân yn y berth, eithr yn ei hymyl—ac nad aeth Crist i'r cyssegr, eithr i ymyl y cyssegr nefol.

Mae y gair *eu* yn y deg a thrugain, a'r Testament Newydd, yn cael ei gyfieithu dros ddwy fil o weithiau, yn arwyddo nid *â* pheth, ond *mewn* peth. Os ydyw y rheol o gyfieithu *en* Groeg yn *â* Gymraeg, yn achos bedydd, yn iawn, os ydyw y rheol yn gywir hi a etyb yn geinwych at bethau eraill hefyd. Profir y cyfryw gynllun yn y siamplau canlynol; megis gweithwyr Solomon yn naddu cerrig â y mynydd, ac nid yn y mynydd—gogoniant yn ymddangos â drws pabell y cyfarfod, ac nid yn nrws pabell y cyfarfod—dodi Crist â y preseb, ac nid yn y preseb—a bedyddio â y Iorddonen, ac nid yn yr Iorddonen—Duw gwedi ymddangos â chnawd, ac nid yn y cnawd—gosod Crist â ei fedd newydd, ac nid yn ei fedd newydd ei hun—âg Adda mae pawb yn meirw, ac nid yn Adda—

gweithio â y winllan, ac nid yn y winllan—rhodio â y deml, ac nid yn y deml—arhosed â y tŷ hyd y bore, ac nid yn y tŷ. Nid oes un rheswm dan haul i gyfieithu *en* Groeg yn *â* Gymraeg, yn achos bedydd, mwy na phe cyfieithasid ef felly yn y lleoedd a nodwyd, a miloedd gyd a hwy. Rheol ŵyrdroedig o gyfieithu yw troi *en* yn *â*, o blegid na etyb at bethau eraill yn gyffredinol. Gwrthun a fyddai dywedyd fod Crist yn athrawiaethu â y deml, ac nid yn y deml.

6. Mae yr ymadroddion ysgrythyrol yn Rhuf. 6. 4. Claddwyd ni gan hyny gyd ag ef trwy fedydd i farwolaeth. Nid oes un math o ddarluniad o gladdu mewn taenellu; ond yr oedd hyny yn bod yn nyddiau Paul mewn bedydd, ac mae hyny gan y Bedyddwyr yn bresennol; gan hyny amlwg yw fod y Bedyddwyr yn glynu wrth yr hen ddull apostolaidd, a'r blaid arall gwedi ei golli. Yr oedd y dull o fedyddio yn arwyddo gynt farwolaeth, sydd amlwg pan y mae Crist yn cyffelybu ei farwolaeth ei hun i fedydd, Luc 12. 50. Mae genyf fedydd i'm bedyddio âg ef, ac O mor gyfyng yw arnaf, hyd oni orphenwyf. Aeth Crist i ddyfnder dyfroedd yn ei farwolaeth, a'r ffrwd a lifodd drosto. Psalm lxix. 2. Mae yn null bedydd y Testament newydd ddarluniad o farwolaeth ac adgyfodiad Crist yn amlwg yn y geiriau yn Rhuf. 6. 4, a goffawyd, a chydffurfiad y bedyddiedig ag ef, trwy weinyddu bedydd yn yr hen ddull apostolaidd. Mae arosfa y bedyddiedig am foment dan y dwfr yn ddarlun mor deg o farwolaeth Crist ag ydyw yfed dafn o win yn y swper yn ddangosiad o hirfaith amser y bu gwaed Iesu yn gorphen rhedeg o wyth niwrnod oed hyd dri o'r gloch prydnawn ar Galfaria, o gylch 33 mlwydd oed. Dylasai T.P, a D.W. ddal sylw na ddywedodd yr Yspryd Glân air yn y geiriau uchod am gyd blanu trwy fedydd —ond yn unig *cyd gladdu trwy fedydd*. Claddu gyd ag ef trwy fedydd sydd yn arddangos y dull o fedydd, lle y dangosir ein hundeb ni â Chrit. Col. 2. 12; a'n

cyd blanu gyd ag ef, a'n cyd godi gyd ag ef, yn gosod allan y cymundeb â Christ yn ei farwolaeth a'i adgyfodiad, yr hyn mae bedydd yn ei arwyddocau. Nid oedd modd i dywyllu y rhan hon o air Duw ganddynt, ond trwy gymmysgu yr hyn sydd yn cyfeirio at ddull bedyddio, a'r hyn sydd yn cael ei arwyddo yn ei ddull o gymundeb y saint â Christ. Ond gwan yw y pwngc hwn o'u tu hwynt: o blegid ni welsant blanu trwy daenellu, eithr trwy roddi yn y ddaear—na chodi trwy daenellu; o blegid codir i fynu i'r diben o daenellu, a rhoddir y plentyn i lawr gwedi ei daenellu, i freichiau ei fam, neu fammaeth. Nid llai gŵr na Mr. Whitfield a ddywedodd fod y geiriau uchod yn cyfeirio at yr hen ddull o fedyddio, trwy *suddo*, neu *drochi*. Mae hyn yn amlwg fod y bedydd yn yr hen ddull ysgrythyrol, gwedi ei golli gan y rhai sydd yn gweini bedydd drwy daenellu; ac i'r diben o gudd-amddiffyn eu henciliad oddiwrth drefn y Testament newydd, ymroddant i roddi esponiadau rhyfygus, ac anghyson iawn ar amryw Ysgrythyrau.

7. Ni ellir trwy un ysgrythur brofi fod bedydd yn bodoli, neu yn cael ei weini, yn ol trefn y Bibl, heb fod y bedyddiedig yn cael ei *amgylchu*, neu ei *orchuddio* â'r elfen y bedyddir ynddi. Nebucodonozor yn y gwlith, Dan. 4.—Yr Apostolion yn yr Yspryd Glân, yr hwn a lanwodd y tŷ lle yr oeddynt. Act. 2. 2, 3.

8. Bedydd y môr coch, Ecsod. 14. 22. Yr ydys wedi cael allan o'r diwedd fedydd ar dir sych yn y môr coch. Os hwnw ydyw argynllun bedydd babanod, yr wyf fi yn meddwl mai un anhawdd iawn ei ddynwared ydyw. Cyn ei efelychu, 1, Rhaid i'r baban gerdded trwy y llestr bedydd, fel Israel trwy'r môr. 2, Rhaid bedyddio tu fewn i'r elfen ddwfr, ac nid yn eihymyl. 3, Rhaid i'r elfen ddwfr beidio cyffwrdd â'r baban, eithr sefyll yn ddau fur o'r tu deheu a'r tu aswy iddo, fel Israel yn medydd y môr coch. 4, A bod yn ofalus am beidio gwlychu ei draed, fel hyn yn

amgylchedig gan y dwfr. 5, A bod y cwmwl tân yn myned dros ben y baban yn y llestr bedydd, fel yr oedd yn myned dros ben yr Israeliaid yn y môr coch. Tebygol, gwedi'r holl ymffrost, fod yn haws dynwared bedydd Crist yn afon yr Iorddonen, na bedydd y môr coch. Bedydd gwyrthiol, ysgatfydd, ydoedd.

Bedydd cyffelybiaethol, neu droellog, oedd bedydd y môr coch, oblegid nid oedd bedydd y Testament newydd mewn bodoldeb y pryd hwnw. Mae tri neu bedwar o bethau yn y bedydd hwn. Gwel 1 Cor. 10. 1,—4. yn erbyn bedydd plant o ran y dull a'r deiliaid. Ymddiddan, dadgan, a gosod allan yr oedd Paul, nid am hawl plant i fedydd, ond perygl proffeswyr i syrthio oddiwrth eu proffes—ac nid perygl plant o fod heb eu bedyddio. Perygl proffeswyr o fynd yn eilun-addolwyr, ac yn odinebwyr oedd dan ei sylw; ac i'r diben i osod y perygl o flaen proffeswyr, mae yn nodi ac yn coffau y rhai a ddaethant o'r Aipht, yn lliaws cymmysg ag eraill, o fab ugeinmlwydd ac uchod, y rhai y syrthiodd eu cyrph yn y diffeithwch, ac a ddinystrwyd gan y seirph; nid oedd yn golygu eu babanod, y rhai oedd y genedl a aeth i Ganaan, yr hyn sydd yn amlwg:—1, Y tadau mae yn eu galw, ac nid y plant, yn yr adnod gyntaf. 2, Am ddull bedydd—dywed eu myned oll dan y cwmwl, nid myned y cwmwl arnynt hwy, fel dwfr wrth daenellu: yr oeddynt hwy yn weithgar, ond nid yw y taenelledig yn myned, ond diferion dwfr sy'n dyfod ato ef. 3, A'u myned oll trwy y môr, ac nid y môr arnynt hwy, fel y mae y dwfr wrth daenellu; nid yw y babanod anwyl yn myned drwy y llestr dwfr, ond yr oedd Israel yn myned drwy y môr. 4, Bedyddiwyd hwynt yn y cwmwl ac yn y môr. Nid yw y rhai a daenellir yn cael eu bedyddio yn y llestr bedydd, a'r dwfr fel muriau o'u hamgylch, ac yn gwmwl uwch eu penau, a hwythau yn droedsych y'ngwaelod y cwpan. Oddiwrth y cwbl, rhaid penderfynu fod y blaid sydd yn gweini bedydd drwy daenelliad gwedi

colli y dull ysgrythyrol o fedydd, a hyny yn droellog, ac yn syml, ac yn ddigyffelybiaeth. Bu llawer yn y bedd yn gorwedd heb fod y pridd yn cyffwrdd â hwynt; ond byddent gwedi au hamgylchu â muriau y bedd, fel Israel yn y Môr coch, eto heb wlychu eu traed, na gwlychu eu dillad, mae yn debyg, ond eu hamgylchiad a'u soddiad o fewn i'r elfen sydd i'w ddeall wrth eu bedyddio yn y môr. Ecsod. 14. 22. a 12. 37. A chwmwl tân hefyd a aeth tros eu penau: nid oedd dwfr i daenellu yn hwnw.

Gofynwn pa ddrwg neu drosedd yw *taenellu*, ac nid *trochi*, mewn bedydd?——Mae,

1, Yn taflu dianrhydedd ar siampl Crist, yr hwn a fedyddiwyd yn yr Iorddonen, trwy ddilyn siampl y Pab o weini bedydd drwy daenelliad, yn ol addefiad y Dr. Wall, sef â dwfr o gwpan. Mat. 3. 25.

2, Mae yn taflu dirmyg ar *ddioddefaint* Crist, a'i *farwolaeth* ef, yr hon a ddarlunir trwy *ddirfawr soddiad* i ddyfroedd mawrion. Luc 12. 50. Salm 69. 2. A'i *gladdedigaeth* ef yn y bedd, a'i *adgyfodiad gorfoleddus*, trwy dynu ymaith y darluniad o godi, neu *ddadsuddo* o'r dwfr, y sydd yn perthyn i'r bedydd ysgrythyrol. A ydyw ddim yn ddrwg dwyn ymaith o ystafell merch Sïon yr hen *ddrych* oedd yn rhoddi golygiad ar bethau mor werthfawr â marwolaeth, claddedigaeth, ac adgyfodiad Crist. Nid oes cyd gyfodi o'r llestr taenellu. Colled, yn ddïau, yw colli y drych, neu ddarlun yr undeb â Christ yn y bedydd yr hwn oedd gynt. Gal. 3. 27. Cynifer o honoch a fedyddiwyd i Grist a wisgasoch Grist: nid talaith fechan ar y talcen oedd, ond gwisg dros y corph. Nid yw taenellu yn amgylchu yr holl gorph, ond y mae gwisgoedd yn gwneuthur hyny. Mae yr hen ddull wedi ei cholli, gyfeillion, yn sicr—mae arwydd o wisgo Crist ar goll yn ddïau—dygodd y Pab y drych hwn.

3. Mae ynddo hefyd, (sef mewn taenellu babanod) yn gystal ag yn y dull o daenellu, y drygau, a'r cam-

syniadau hyn a ganlyn, fel mae y gair yn ymddangos i ni. 1, Bod yn ddoeth uwchlaw yr hyn a ysgrifenwyd. 1 Cor. 4. 6. Ni ysgrifenwyd erioed am fedyddio plant. A'r drwg o ddyrysu y gadwyn blethedig yn *nghommissiwn* Crist, Math. 28. 19. trwy droi dysgu yn fedyddio —a chymeryd enw y Drindod wrth beth nad yw yn fedydd yn ol gair Duw. Math. 28. 19. Ac o daflu draw, disodli, a diswyddo y bedydd, y mae dysgu, credu, a phroffesu, o'i flaen, yn ol *commissiwn* Crist, Math. 28. 19.—A gosod perthynas â rhïeni (ac nid â Christ) yn sail hawl i freintiau ysprydol; yr hyn ni all fod, gan na ddichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw.—A magu, a meithrin, a choleddu anufudd-dod i'r bedydd a orchymynodd Crist i bob un o'i bobl, i roddi ufudd-dod iddo. Math. 28. 19. yn ol ei *gommissiwn,* a siampl yr Apostolion.—Ac o ddal i fynu a chanmol crefydd y naill ddyn dros y llall; ac nid crefydd bersonol dyn ei hun ger bron Duw. Ni fedr y Tad roi crefydd i'r mab, ond rhaid iddo ei chael oddi uchod, o'r un lle a'i dad. Dadgenir nad oes genym ni ddim i'w ddywedyd yn erbyn bedyddio plant, nad ydyw hefyd yn ogymmaint yn erbyn enwaedu plant. Camsyniad yw hyn, yr hyn, gobeithio, sydd gwedi ei egluro yn y llyfryn hwn. 1, Cyfammod amserol oedd cyfammod yr enwaediad, ac nid cyfammod ysprydol. 2, Gallasai perthynas naturiol âg Abraham roi hawl a chymmwysder i fwynhau breintiau cyfammod amserol, a chysgodol—ac mae ein dadl ni yn sefyll yn ei holl rym, nad oes ond undeb â Christ trwy ei Yspryd ef yn y cyfammod gras, yr hwn yw ei ben a'i gyfryngwr ef: ïe, ni all na bach na mawr feddiannu hawl mewn breintiau ysprydol, yn y nef na'r ddaear, ond trwy berthynas ysprydol â Christ. Nid oes dyfod at y Tad i neb ond trwyddo ef, na neb drwyddo ef ond y rhai a wneir yn un âg ef trwy ei Yspryd. Cytuna y blaid arall â ni yn hyn, fel y mynych adroddwyd, ond wrth y bedydd-lestr: yno dadleuant dros Iuddewaeth, neu

grefydd heb undeb â Christ, yr hon ni all fod, ar y goreu, yn Gristionowgrwydd, oblegid nid yw Ysbryd Crist ynddi.

Dalier sylw yma, 1, Mai drwy droi cyfammod yr enwaedediad yn gyfammod gras. 2, Trwy wneuthur yr eglwys Iuddewig a'r eglwys efangylaidd yr un eglwys, neu Iuddewiaeth a Christionowgrwydd yr un peth, yr ydys yn attegu bedydd plant. Pa eglwys a safodd pan syrthiodd yr oruchwiliaeth? A arosodd cenedl Abraham, ar sail eu perthynas âg ef, yn eglwys fel yr oeddynt yn yr eglwys Iuddewig? Os do, mae bedyddwyr plant yn dywedyd y gwir—os na ddo nid ynt ddim. Os bwrw dillad Agar ac Ismael yn yr *alegori*, Gal. 4, allan a wnaed, a'u gadael hwy i mewn, maent hwy yn agos i'w lle, i'r un personau aros i mewn, ond yn unig newid eu dillad. Er ein bod ni gyda *golwg* ar yr eglwys fawr trwy'r ddaear a'r nef, yn ystyried *gyda* y blaid arall, yr hon eglwys yw corph dirgeledig Crist, mai yr un yw y golomen hòno yn mhob oes o'r byd. Ond camsyniad o radd uchel, yw dadgan mai yr un personau o ran eu cymeriad (*characters*) a'u perthynas gyfammodol oeddynt yn cyfansoddi yr eglwys Iuddewig a'r eglwys Gristionogol, ac nad oes neb yn dal y fath beth, ond wrth y bedydd-lestr. Gwnawn hyn yn oleu fel haul. Yr oedd yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, a Chaiaphas yr Archoffeiriad, llofruddion Crist, hwy a'u plant, yn aelodau o'r eglwys Iuddewig, ar sail eu perthynas âg Abraham. Ai cynnulleidfa o'r fath dylwyth a'r rhai hyn, neu o'r rhai hyn eu hunain, sy'n gwneud i fynu yr eglwys Gristionogol, dim ond newid eu dillad, gan roddi bedydd iddynt yn lle enwaediad? Pe b'ai gwir mewn dadleoun dros fedydd plant, felly y buasai raid fod pethau. Newidiwyd y y gynnulleidfa gyda newid eu dillad sydd amlwg; yr hen gynnulleidfa ar sail eu perthynas âg Abraham, sef yr eglwys Iuddewig, fel y cyfryw dan enwaediad, a fwriwyd allan, yn ol ystyr *alegori* Paul; fel y'nghylch Ismael

ac Agar, yr hyn sy'n arwyddo, 1, Diddymiad cyfammod yr enwaediad.—2, A'r berthynas naturiol âg Abraham oedd ynddo, yr hyn oedd yn rhoi sail aelodaeth i'r hen gynnulleidfa. A'r eglwys efangylaidd sydd yn cael ei gwneud i fynu o gynnulleidfa ar sail perthynas newydd ac ysprydol â Christ yn y cyfammod gras; ac ni ddaeth neb o'r hen gynnulleidfa Iuddewig, na rhïeni na phlant, i mewn at y gynnulleidfa Gristionogol, ond trwy ail-enedigaeth. Mae cymmaint o wahaniaeth, yn ol y Bibl, rhwng *Iuddewaeth a Christionogaeth* ag sydd rhwng (1) y Jerusalem isod a'r Jerusalem uchod, (2) a rhwng perthynas naturiol âg Abraham, a pherthynas ysprydol â Christ. Gal. 4. 25,—28. (3) ag sydd rhwng creaduriaid newyddion, neu ail-enedigion, a'r Iuddewon sydd yn awr ar hyd ein gwlad ni. Tybied a fyddai yn ddigon newid dillad Iuddew i'w wneud yn Gristion, neu ei daenellu yn lle ei enwaedu.—O na, mae yn rhaid ei gael i berthynas â Christ, 2 Cor. 5. 17. efe a'i blant, medd llais pob Cristionogion, ond wrth y bedydd-lestr.

3. A thrwy ddarlunio bedydd yn ufudd-dod y rhïeni, ac nid y bedyddiedig.

4. A thrwy wneuthur sêl o fedydd, yn lle gwaed ac Yspryd Crist. Dan. 9. Eph. 1.

5. A thrwy wneud rhyw fath o benau cyfammod o dadau proffesol i'w plant naturiol, yn lle Crist, yn y cyfammod gras. Colofnau gau ydynt oll yn ddiameu: mae natur ysprydol teyrnas Crist yn profi hyny yn dra eglur.

Ond dangoswyd fod bedydd y Bedyddwyr yn sefyll ar y colofnau hyn:—1, Gorchymyn a chyngor Duw. Luc 7.—2, Comissiwn Crist. Math. 28. 19.—3, Siampl Crist. Math. 3.—4, Llef y Tad, a disgyniad yr Yspryd Glân. Math. 3.—5, Enw y Drindod. Math. 28. 19.—6, Yn arwyddocau marwolaeth, claddedigaeth, ac adgyfodiad Crist, a golchiad yr ail-enedigaeth. Rhuf. 6. 4.—7, A gwisgiad Crist mewn proffes.—8, Ac ufudd-dod iddo yn cyfiawnhau Duw fel deddfroddwr Luc 7

Dadgan T. P. a D. W. amryw bethau o'r tu dal. 42 hyd y diwedd. 1, Drwg oedd genym ei weled yn tueddu i wadu bod ffydd gan Grist. A oedd efe ddim yn credu addewidion ei Dad iddo? Lle mae gobaith mae ffydd a chariad hefyd. Darllen Esay 49, y bennod oll, i edrych a weli, neu a glywi lais, ffydd yn Nghrist, gwas Duw. Rhyfyg ydyw y fath haeriad. Derbynir genym wrthgilwyr heb eu hail fedyddio—1, oblegid mai ufudd-dod personol a roisant i fedydd,—2, Ac fod tebygolrwydd fod perthynas rhyngddynt â Christ, pan y cawsant eu bedyddio, gan eu bod yn dychwelyd o'u gwrthgiliad—a hwy a gawsant eu gwir fedyddio.—3. Ac nid oes ail *drochi* neu ail fedyddio i fod, yn ol y gair. Ni chyfranogodd babanod yn nghwymp Adda heb fod mewn perthynas naturiol âg ef yn ei gyfammod: ar yr un sail ni all plant na neb gyfranogi o ddaioni ysprydol ac iachawdwriaeth, trwy'r ail *Adda*, heb berthynas ysprydol âg ef yn y cyfammod gras. Mae undeb yn sail cymmundeb. Ni chynnwysodd cyfammod Adda neb ond y rhai oedd mewn perthynas â'i ben ef; ac yn wir ni chynnwys y cyfammod gras gymmaint ag un, yn y nef nag ar y ddaear, ond y cyfryw sydd, neu a ddygir, mewn undeb â phen y cyfammod, trwy waith yr Yspryd arnynt ac ynddynt.

Ateb i'r holiadau. Yr hwn a ddiddymodd gyfammod yr enwaediad, ac a fwriodd blant allan, ar gyfrif eu perthynas â'u rhïeni; ond ni fwriodd ef allan na bach na mawr a ddygir mewn undeb â'i Fab Iesu; ac undeb babanod â Christ a'u hachubodd yn mhob oes, ac nid eu perthynas â'u rhïeni, er bod hyny yn rhoddi hawl i enwaediad. Mae'n gyfreithlon i bob eglwys weithredu ar y sylfaen hon, os *eiddo Crist*, yna had Abraham, ac etifeddion o'r iachawdwriaeth: os amgen dadleu dros Iuddewaeth y bydd. Rhaid i bawb yn y cyfammod gras gael perthynas â Christ, cyn, ac mewn trefn i feddiannu yr iachawdwriaeth yma ac yn y nef. Yr unig ffordd i dderbyn plant yn enw Crist i'r nef

uchod, a'r eglwys isod, yw ar sail perthynas ysprydol rhyngddynt â phen y cyfammod, wedi ei weithio ynddynt gan yr Yspryd Glân, ac nid ar sail eu perthynas hwy â dynion eraill, fel y myn T. Powel.

Nid ydyw Duw gwedi rhoddi addewid erioed yn y cyfammod gras, i'r tadau na'r plant i ddyfod i'w eglwys, namyn ar sail eu perthynas â Christ, pen y cyfammod. Os yr un addewid sydd i'r plant, a'r tadau, fel yr addef D. W. dal. 47. gwyddom nad oes un addewid i'r tadau heb ail-eni, neu undeb â Christ. Mae yr addefiad hwn yn dinystro ei bwnc ef. Yn unol a'r pwnc y dadleua ef drosto, dylasai ddywedyd, Nid oes addewid i'r tadau, heb berthynas ysprydol â Christ; ond mae addewid o fath arall i blant, o herwydd eu perthynas, a'u rhïeni, er nad oes perthynas ysprydol rhyngddynt a phen y cyfammod. Addef D. W. mai tad y ffyddloniaid, neu siampl ffydd, yw Abraham yn mysg y cenedloedd, Rhuf. 4. 4.—12. ond cyn cael sail i fedydd babanod dylasai brofi fod yr ysgrythyr yn dywedyd fod Abraham yn dad pawb a gredant y'mysg cenedloedd, ac yn dad naturiol i fabanod, fel yr oedd yn nghyfammod yr enwaediad. Fe fu eglwys gan Dduw ar y ddaear, o Abel hyd Abraham, heb un ordinhâd perthynol iddynt: heb un arwydd fel enwaediad arnynt. A ellir bod mor galed a thybied eu bod fel "anifeiliaid y maes." ac yn golledig? O nag oeddynt. Ni bu plant, na neb arall, yn perthyn i'r cyfammod ar gyfrif perthynas â'u gilydd, neu â rhïeni duwiol. Mae plant yn sefyll ar yr un tir a'u rhïeni yn y cyfammod gras—nid oes ond perthynas â Christ a all achub y tad na'i blentyn Rhaid uno y naill fel y llall yn gangenau yn Nghrist. Ni achubir plentyn, o herwydd ei fod yn gangen mewn teulu duwiol, ond trwy fod yn gangen ei hun, yn bersonol, yn Nghrist fel ei dad. Er fod cyfammod yr enwaediad, yn derbyn ar gyfrif undeb a pherthynas â rhïeni; ond nid felly y bu, y mae, nag y bydd, yn

y cyfammod gras; Crist yw 'r gwreiddyn yno byth.

Nid oes yr awgrym lleiaf, ag sydd mewn modd eglur yn dangos, fod un plentyn gwedi ei fedyddio gyda'i rïeni. Byddai hyny yn tori y ddadl——Ond haeriad, yn lle prawf sydd am hyny. Tebygoliaeth ddi arwydd, a chwenychiad i'w ddwyn i'r goleu, ond heb allu. Nid ydym ni gwedi gweled bedydd erioed yn cael ei alw yn sêl yn y cyfammod gras. Profer hyny yn gyntaf. Gwaed Crist, a'r Yspryd Glân, yw sêl y cyfammod gras. Yr addasrwydd i dderbyn enwaediad, oedd bod o deulu Abraham; ac yn wrryw, neu trwy broselytiaeth: perthynas â'r genedl Iuddewig oedd sail ato—ond perthynas â Christ (yn cael ei phroffesu) ac nid Abraham sydd yn rhoddi hawl i fedydd, a chymhwysder, hefyd. Pa fodd yr oedd y plant a theyrnas nefoedd yn eiddo iddynt, heb eu bedyddio, na son, gair am hyny. Buasai pwnc *rhai* yn eu harwain i ddywedyd, wrth Grist Nid oes fodd eu bendithio hwynt, heb eu bedyddio; oblegid y maent mor ddiberthynas â Duw, ag "anifeiliaid y maes"; ac nid yw teyrnas nefoedd yn perthyn iddynt, heb berthynas â rhïeni duwiol, a chael eu bedyddio. Yr wyf fi, yn wir, mewn arswyd wrth weled, y fath bwys yn cael ei roddi a'r Iuddewiaeth, a pherthynas y naill ddyn â'r llall; ac mor lleied o sylw, a phwys yn cael ei roi wrth y bedydd-lestr, ar berthynas ysprydol rhwng plant a thadau â Christ. Braint y gelwir bedydd plant; Ond cyn y byddo ef, yn fraint, rhaid profi fod Crist gwedi gorchymyn eu bedyddio, a chael undeb ag ef. Canys yn Nghrist Iesu, mae Duw yn breintio pawb yn y nefolion leoedd: ac nid o herwydd perthynas y naill ddyn â'r llall. Breintiau o'r cyfryw natur yr ydym ni drostynt oll. O! pa bryd y derfydd moli a chanmol perthynas y naill ddyn â'r llall, fel sylfaen breintiau, ac nid perthynas â Christ? Pa hyd y canmolir, wrth y bedydd-lestr, gyfammod yr enwaediad o flaen y cyfammod gras? Sylwa ar

Ecsod. 14. 22. A meibion Israel a aethant trwy ganol y môr ar dir sych: a'r dyfroedd oedd yn fur iddynt, o'r tu deheu ac o'r tu aswy. Mae rhai yn gwneud hyn yn gynllun o fedyddio a'r dir sych; ond cyn y gallant efelychu neu *gopio* hwn yn iawn, 1, Rhaid i'r babanod fyned trwy ganol y llestr bedydd, megis Israel trwy ganol y môr. 2, Rhaid iddynt gerdded a myned y'mlaen, i'r pen draw i'r llestr bedydd, fel Israel yn y môr. 3, A chadw traed y babanod heb eu gwlychu ar waelod y llestr bedydd, fel yr oedd traed meibion Israel yn y môr. 4, A gofalu hefyd, tra byddo y babanod yn y llestr, a'u traed yn sychion, fod y dyfroedd fel mûr, o'r tu deheu ac o'r tu asswy iddynt, ac heb wlychu eu traed chwaith. 5, Fod y cwmwl, neu golofn o dân uwch eu penau, megis yr oedd uwch ben meibion Israel. Nid peth haws yw y fath fedyddio ar dir sych a hwn, na bedydd Crist yn yr Iorddonen: ac mae taenellu mor annhebyg i'r naill a'r llall.

## YSTYRIAETHAU DIWEDDOL.

Yn yr adolygiad hwn 1, Profwyd yn eglur.——

1 Mai nid y cyfammod gras oedd cyfammod yr enwaediad. Gwnaethpwyd cyfammodau âg Abraham, y cyntaf Gen. 12. 3. dyma y cyfammod gras—cadarnhawyd hwn â llw. Gen. 22. 18. Gwel Rhuf. 4. Gal. 3. 17; perthyn i hwn mae yr olewydden. Yr ail gyfammod âg Abraham, Gen. 17. hwnw yw cyfammod yr enwaediad—ac o hwnw y tarddodd cyfammod Sinai. Gwel Gal. 4. Heb. 8; i hwn y perthynai y Jerusalem isod. Hyn yn fŷr oedd y gwahaniaeth rhwng y ddwy eglwys dan y ddau gyfammod; sail perthynas naturiol â rhïeni oedd yn sylfaen aelodaeth yn nghyfammod yr enwaediad, a sail aelodaeth yn yr olewydden, neu yr eglwys Gristionogol, oedd, ac yw perthynas ysprydol â Christ.

2. Dangoswyd, yn deg a diduedd, mai dwy eglwys oedd yr eglwys Iuddewig a'r eglwys Efengylaidd. Cenedl gyfan o dda a drwg oedd yr un Iuddewig, gweddill achubol, cenedl yn nghanol cenedl, a galwedig o blith pob cenedl yw yr eglwys Gristionogol. Mam yr Iuddewon, a mam y Cristionogion oeddynt ddwy fam. Gal. 4. Cyn cynnal bedydd babanod mae yn rhaid dadgan mai un oeddynt. Teyrnas o'r byd hwn, oedd yr eglwys Iuddewig, ac a ysgydwyd ymaith, ond teyrnas nefoedd, ac un ddisigl, yw yr eglwys Efengylaidd; ac nid ellir myned iddi heb ail-enedigaeth. Ugain a chant oedd rhifedi yr eglwys efengylaidd cyn dydd y

Pentecost; dyna'r olewydden y chwanegwyd y tair mil crediniol bedyddiedig atynt hwy, ac nid at yr eglwys Iuddewig; yn yr hon yr oeddynt yn aelodau erioed. Rhaid i fedyddwŷr plant brofi fod plant yr ugain a'r cant, y'nghyd a'r tair mil o Iuddewon a chwanegwyd atynt, gwedi eu bedyddio gyda hwynt hefyd, cyn bod dim sail ganddynt i ddadgan fod plant bychain yn yr olewydden y torwyd yr Iuddewon anghrediniol o honi—ac hefyd fod y cenedloedd a impiwyd atynt gwedi taenellu eu babanod gyda hwynt yn hanes tŷ Cornelius. Act. 1. pen. 2. pen. 10. "Pwy a all luddias dwfr fel na fedyddier y rhai hyn a dderbyniasant yr Yspryd Glân fel nineu," ydoedd iaith Pedr.

3. Profwyd hefyd mai perthyn i'r eglwys Iuddewig cynnwysedig o'r genedl i gyd, yn dda a drwg,'roedd enwaediad. Pedwar rheswm Mr. P. i brofi mai ordinhâd eglwysig, ac nid gwladol, oedd enwaediad. Dal. 9. 1, Dylasai ddyall fod enwaedu Ismael, a phlant Ceturah, yn profi yn ogyfuwch nad oedd yn ordinhâd eglwysig; o herwydd nad oeddynt hwy yn perthyn i'r eglwys Iuddewig mwy nag i'r wlad Iuddewig.—2, Petai yn wir mai ordinhâd eglwysig oedd, buasai Ismael yn perthyn i'r eglwys.—3, Dylasai gofio fod enwaediad mor anhepgor i feddianu, a thrigo yn y wlad, ag ydoedd i fyned i mewn i'r meddiant o honi. "Torir ymaith y dienwaededig o'r tir hwnw," ydoedd y gyfraith, Gen. 17.—4, Camsyniodd yn anferthol wrth ddadgan fod y porselytiaid yn meddianu breintiau yr eglwys—ond dim o'r wlad. Gwel Gen. 34. 15, 16, 17. a 20. 22, 23. Sylwa ar gyfraith enwaediad proselytiaid. Yr oeddynt yn dyfod yn un bobl—eu merched hwy—eu hanifeiliaid, a'u cyfoeth hwynt, fyddant eiddom ni. Bydded y proselyt fel yr hwn a aned yn y wlad—ac nid yn yr eglwys, Ecsod. 12. 48. Gwladwriaeth mae Paul yn galw yr eglwys Iuddewig. Eph. 2. Yr oedd yr eglwys yn wladwriaeth a'r wladwriaeth yn eglwys yno.

Dywedodd un yn ddiweddar, wrth goroni y Bedyddwyr â chroes Crist, mai "Caws llyffaint oeddynt, gwedi codi yn *Germany*; ac nid oedd ganddynt ond gwreiddyn main iawn!! Dywedwn am hyn fel yr atebodd Crist ryw wrthwynebwr. *Ysgrifenwyd.* Math. 3. 1, Deng mlwydd ar hugain oedd oedran Crist pan y bedyddiwyd, ac yr oedd yn hâd y ffyddloniaid—ac wedi ei enwaedu yn faban—2, ac mewn afon y bedyddiwyd ef. Hwnw yw ein Pen ni frodyr: efe yw ein gwreiddyn ni. O am rym i'w anrhydeddu yn mhob peth! Os caws llyffaint y gelwir ni, yr ydym gwedi dechreu tyfu yn Judea, dan wlith y nef, ac y'ngwres haul y cyfiawnder—a Christ yn wreiddyn i ni, ac nid John Leyden yn *Germany:* ac na fydded yn wreiddyn o dir sych y'ngolwg neb. Na choder dwrn yn erbyn dim o siamplau nag eirchion y bendigedig Iesu.

BIBLIOTHECA BODLEIANA

DIWEDD.

*J. JONES, ARGRAFFYDD, TREFRIW.*